

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 - Canllawiau ar Gofrestru

Cynnwys

Adran 1	Cyflwyniad.....	4
Adran 2	Pa wasanaethau y mae angen eu cofrestru?.....	6
Adran 3	Mathau o Ddarparwyr.....	16
Adran 4	Unigolion Cyfrifol.....	19
Adran 5	Gwneud cais.....	23
Adran 6	Asesu'r cais.....	25
Adran 7	Penderfyniadau Cofrestru.....	28
Adran 8	Hysbysiadau ac Amrywiadau Ar-lein.....	31
Atodion 1.	Nodyn Ymarfer ar ddehongli gofal a chymorth.....	33
Atodiad 2.	Coeden benderfynu ar gyfer gwasanaeth cartref gofal.....	36
Atodiad 3.	Coeden benderfynu ar gyfer gwasanaeth cymorth cartref.....	37
Atodiad 4.	Canllawiau ar "Cyfeiriad neu reolaeth barhaus gofal a chymorth mewn Gwasanaethau Cymorth Cartref".....	39
Atodiad 5.	Ardaloedd byrddau partneriaeth rhanbarthol o ran Gwasanaethau Cymorth Cartref.....	43
Atodiad 6.	Holiadur Addaswydd Unigolyn Cyfrifol.....	45
Atodiad 7.	Deddfwriaeth a Chanllawiau Statudol.....	46
Atodiad 8.	Crynodeb o'r wybodaeth a'r dogfennau sy'n ofynnol yn y ffurflen gais.....	47
Atodiad 9.	Fframwaith Penderfyniad Cofrestru	53
Atodiad 10.	Y Broses Sylwadau	61
Atodiad 11.	Gwasanaethau Rheoleiddiedig o dan y Ddeddf	66
Atodiad 12.	Eithriadau Cofrestru	69
Atodiad 13.	Cymhwysedd unigolyn cyfrifol (a.21 y Ddeddf)	73
Atodiad 14.	Prawf person addas a phriodol (a.9 y Ddeddf).....	74
Atodiad 15.	Canllaw ar gyfer actifadu eich Cyfrif AGC Ar-lein.....	76
Atodiad 16.	Gwybodaeth a dogfennau sydd eu hangen ar gyfer ceisiadau amrywio.....	78
Atodiad 17.	Cyfweld ag Unigolion Cyfrifol.....	82
Atodiad 18.	Matrics penderfynu ar ymweliad cofrestru safle.....	83
Atodiad 19.	Rhestr termau.....	86

1. Cyflwyniad

1.1 Diben cofrestru

Fel rheoleiddiwr gofal cymdeithasol yng Nghymru, un o swyddogaethau craiff Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yw sicrhau mai dim ond y bobl hynny y dyfarnir eu bod yn addas ac yn debygol o ddarparu gofal o ansawdd da sy'n cael eu cofrestru i wneud hynny.

Mae'r broses gofrestru yn gweithredu fel porthgeidwad i'r rheini sy'n dymuno darparu gwasanaeth rheoleiddiedig a dyma'r cam cyntaf yn y ffordd yr ydym yn diogelu pobl sy'n defnyddio gwasanaethau rhag derbyn gofal gwael.

Mae'r gofrestr yr ydym yn ei chadw yn cynnig cofnod cyhoeddus o'r rheini sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau gofal yng Nghymru a'r unigolion sy'n gysylltiedig â nhw.

Mae'r canllawiau hyn yn nodi ein dull cofrestru, gan gynnwys yr egwyddorion a'r prosesau yr ydym yn eu dilyn wrth ddefnyddio ein pwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf").

Mae ein gwaith yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion:

Canolbwyntio ar bobl – rydym yn rhoi'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau rheoleiddiedig wrth galon ein gwaith ac yn ystyried effaith y gwasanaethau ar wella llesiant pobl.

Cefnogi gwelliant – rydym yn gwneud dyfarniadau am wasanaethau. Rydym yn cydnabod arfer gorau, yn nodi arfer gwael, ac yn hyrwyddo gwella mewn gwasanaethau gofal.

Bod yn dryloyw – rydym yn ymdrechu i ysgrifennu adroddiadau eglur fel y gall pobl ddeall sail y dyfarniadau.

Bod yn deg – rydym yn seilio'n dyfarniadau ar dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o arolygiad ac yn rhoi cyfle i ddarparwyr gwestiynu cywirdeb ffeithiol a chanfyddiadau.

Bod yn gadarn – rydym yn cymryd camau cadarn ac amserol pan fo gwasanaethau'n darparu gofal gwael neu'n rhoi pobl mewn perygl.

Bod yn gymesur – trwy ganolbwyntio ar yr hyn sydd bwysicaf.

Bod yn effeithlon – trwy wneud y defnydd gorau o TGCh a cheisio peidio â gosod beichiau afraid ar y sawl sy'n darparu gwasanaethau gofal a chymorth.

Dull sy'n seiliedig ar hawliau

Mae cynnal hawliau pobl yn ganolog i'n gwaith. Rydym yn cymryd i ystyriaeth amcanion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a 'Cynllun Hawliau Plant' Llywodraeth Cymru, sydd wedi eu diogelu ym Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2010 a'r Datganiad o Hawliau i Bobl Hŷn yng Nghymru (2014).

Mae erthyglau perthnasol CCUHP, y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, Deddf Hawliau Dynol 1998 a Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi eu hymsefydlu yn ein fframweithiau arolygu. Bydd yr arolygwyr yn ystyried sut y mae darparwyr yn hybu hawliau pobl, i sicrhau bod gan blant ac oedolion lais, eu bod yn ddiogel, eu bod yn cael eu trin gyda pharch a'u bod yn cael eu helpu i ddatblygu eu potensial llawn.

1.2 Rhestr termau

Rydym wedi defnyddio'r termau canlynol yn aml drwy'r canllawiau hyn:

“Darparwr gwasanaeth” – mae hyn yn cyfeirio at yr endid cyfreithiol sydd wedi ei gofrestru i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

“Gwasanaeth (au) rheoleiddiedig” – mae hyn yn cyfeirio at unrhyw un o'r mathau o wasanaethau a ddiffinnir o dan y Ddeddf, fel gwasanaeth cartref gofal neu wasanaeth cymorth cartref. Nodir y rhestr lawn o wasanaethau rheoleiddiedig yn [Atodiad 8](#) y canllawiau hyn.

“Gwasanaeth (au)” – mae hyn yn cyfeirio at wasanaeth unigol. O ran cartrefi gofal, cartref gofal fyddai hwn, sy'n cael ei redeg mewn lleoliad penodol, fel Cartref Gofal Suncare, Caerdydd. O ran gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaeth unigol fyddai hwn, sy'n cael ei redeg mewn ardal benodol, fel Gwasanaeth Cymorth Cartref Suncare Cwm Taf.

“Endid cyfreithiol” – mae hyn yn golygu unigolyn neu sefydliad sydd â hawliau a rhwymedigaethau cyfreithiol.

Gweler [Atodiad 14](#) am restr lawn o'n termau.

2. Pa wasanaethau y mae angen eu cofrestru?

Mae'n ofynnol i unrhyw berson sy'n darparu "gwasanaeth rheoleiddiedig" o dan y Ddeddf gofrestru gyda ni. Y gwasanaethau rheoleiddiedig yw:

- Gwasanaethau cartrefi gofal;
- Gwasanaethau llety diogel;
- Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd;
- Gwasanaethau cymorth cartref;
- Gwasanaethau mabwysiadu;
- Gwasanaethau maethu;
- Gwasanaethau lleoli oedolion;
- Gwasanaethau eirioli.

Nodir y diffiniadau o wasanaethau rheoleiddiedig yn Atodlen 1 Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ac yn [Atodiad 8](#) y canllawiau hyn.

Dylai darparwr ystyried y diffiniadau a'r eithriadau a nodir isod cyn cyflwyno cais i gofrestru gwasanaeth rheoleiddiedig.

Gwasanaethau cartref gofal

Mae gwasanaeth gofal cartref yn darparu llety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i unigolyn/ion oherwydd eu sefyllfa agored i niwed neu eu hangen.

Mae "gofal" yn golygu tasgau ac anghenion corfforol unigolyn sy'n derbyn gofal o ddydd i ddydd a'r prosesau meddyliol sy'n gysylltiedig â'r tasgau neu'r anghenion hynny, er enghraifft bwyta, ymolchi a rhoi meddyginiaeth a chofio i fwyta, ymolchi a chymryd meddyginiaeth. Mae ein Nodyn Ymarfer ar ddehongli Gofal a Chymorth yn [Atodiad 1](#) yn nodi rhai o'r gweithgareddau sy'n debygol o gyd-fynd â'r diffiniad o ofal mewn gofal cartref.

Nid yw "nyrsio" wedi ei ddiffinio yn y Ddeddf, ond, yn y cyd-destun hwn, mae'n golygu'r ddarpariaeth o ofal, neu gynllunio, goruchwyllo neu ddirprwyo'r ddarpariaeth o ofal gan nyrs gofrestedig yn rhan o gynllun a baratowyd ar gyfer unigolyn sy'n derbyn gofal, naill ai gan awdurdod lleol, bwrdd iechyd neu ddarparwr gwasanaeth.

Nid yw gwasanaeth sy'n darparu llety a chymorth yn unig yn cyd-fynd â'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal. Mae ein Nodyn Ymarfer ar y dehongliad o Ofal a Chymorth yn [Atodiad 1](#) yn nodi rhai o'r gweithgareddau sy'n debygol o gyd-fynd â'r diffiniad o gymorth ac sydd felly y tu allan i'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal.

Nid yw'n ofynnol i gynlluniau y cyfeirir atynt yn aml fel "byw â chymorth" neu "gofal ychwanegol" gofrestru fel gwasanaeth cartref gofal, cyn belled ag y bo'r gofal yn cael ei ddarparu yn unol â threfniadau cytundebol ar wahân i'r rheini ar gyfer llety'r person. Bydd angen i ni ystyried y trefniadau hyn yn ofalus i sicrhau nad yw cofrestru fel gwasanaeth cartref gofal yn ofynnol. Bydd angen i ddarparwr y gofal a'r

cymorth ystyried pa un a yw'n ofynnol iddo gofrestru fel gwasanaeth cymorth cartref.

Mae ein Coeden Benderfynu ar gyfer Gwasanaethau Cartref Gofal yn [Atodiad 2](#) y canllawiau hyn yn nodi rhai o'r ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu p'un a yw gwasanaeth yn perthyn i'r diffiniad o Wasanaeth Gofal Cartref.

Eithriadau

Nid yw **ysbytai a gwasanaethau rheoleiddiedig eraill**, fel canolfannau preswyl i deuluoedd, gwasanaethau llety diogel a llety a drefnir yn rhan o wasanaeth lleoli oedolion yn wasanaeth cartref gofal. Lle darperir gofal nyrsio ac mae'r llety yn perthyn i Ymddiriedolaeth GIG, Bwrdd Iechyd Lleol neu Weinidogion Cymru at ddibenion eu swyddogaethau o dan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, mae hwn wedi ei eithrio o gofrestru.

Mae **seibiannau byr i oedolion** (18 oed neu hŷn) lle mae llety a nyrsio neu ofal yn cael eu darparu am lai na 28 diwrnod mewn unrhyw gyfnod o 12 mis wedi eu heithrio. Mae hyn yn golygu na all y gwasanaeth fod yn weithredol am 28 diwrnod neu fwy dros unrhyw gyfnod o 12 mis. Gall y 28 diwrnod fynd heibio yn olynol neu gynnwys nifer o gyfnodau dros 12 mis, sy'n gyfanswm o lai na 28 diwrnod.

Mae **ysgolion** wedi eu heithrio o'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal, oni bai eu bod yn darparu neu'n bwriadu darparu llety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i o leiaf un plentyn am fwy na'r cyfnod amser penodedig. 295 diwrnod neu fwy mewn unrhyw gyfnod o 12 mis sydd o fewn 24 mis yw'r cyfnod amser penodedig. Er enghraifft, pe bai ysgol wedi darparu gofal a llety i blentyn yn ystod 2015 - 2017 am 305 diwrnod rhwng mis Medi 2015 a mis Medi 2016, byddai hyn yn cyd-fynd â'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal.

Mae **prifysgolion a'r sector addysg bellach** wedi eu heithrio o'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal oni bai eu bod yn darparu llety, ynghyd â gofal, i fwy na 10% o'r holl fyfyrwyr sy'n derbyn addysg a llety.

Byddwn fel rheol yn dyfarnu hyn trwy ystyried niferoedd myfyrwyr dros 12 mis, yn hytrach nac ar un diwrnod yn unig.

Mae sefydliad yn y sector addysg bellach yn golygu sefydliad sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg bellach, neu sefydliad a ddynodwyd felly gan orchymyn yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg.

Mae llety ynghyd â nyrsio neu ofal a ddarperir yn ystod **perthynas deuluol neu bersonol** nad oes unrhyw fudd ariannol amdano wedi ei eithrio o'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal. Diffinnir perthynas deuluol neu bersonol fel:

- a) mae perthynas deuluol yn cynnwys perthynas rhwng dau berson sydd—
 - i) yn byw yn yr un aelwyd,

- ii) yn trin ei gilydd fel pe baent yn aelodau o'r un teulu;
- b) mae perthynas bersonol yn berthynas rhwng neu ymhlith ffrindiau;
- c) mae ffrind i berson (A) yn cynnwys person sy'n ffrind i aelod o deulu A.

Mae hyn yn cynnwys unrhyw ofal a chymorth a ddarperir i blentyn gan riant, perthynas neu ofalwr maeth.

Mae **gwasanaeth gwarchod plant** neu **wasanaeth gofal dydd i blant**, sydd wedi ei gofrestru gyda ni o dan Ran 2 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn cyd-fynd â'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal dim ond os oes 28 neu fwy o achlysuron, dros gyfnod o 12 mis, pan ddarperir gofal i unrhyw un plentyn am gyfnod o fwy na 15 awr yn ystod cyfnod o 24 awr. Nid yw'r eithriad hwn yn gymwys os caiff y gwasanaeth ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i blant anabl.

Mae gwahanol wasanaethau sy'n gysylltiedig â'r **system cyfiawnder troseddol** wedi eu heithrio o gofrestru, fel hostelau mechnïaeth cymeradwy, hostelau prawf cymeradwy neu sefydliad ar gyfer troseddwyd ifanc.

Lle darperir llety a gofal i blant 16 oed a hŷn at y diben o alluogi **hyfforddiant neu brentisiaeth**, mae hyn wedi ei eithrio o'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal. Nid yw'r eithriad hwn yn gymwys os caiff y gwasanaeth ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i blant anabl.

Mae llety a gofal sy'n cael eu darparu i blant at ddibenion **gwyliau, neu weithgaredd hamdden, adloniant, chwaraeon, diwylliannol neu addysgol** wedi eu heithrio o'r diffiniad. Nid yw'r eithriad hwn yn gymwys yn y sefyllfaoedd canlynol:

- Lle y caiff y gwasanaeth ei ddarparu'n gyfan gwbl neu'n bennaf i blant anabl oni bai bod y Darparwr Gwasanaeth wedi rhoi gwybod i Weinidogion Cymru am y trefniadau ymlaen llaw; neu
- Os yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu i unrhyw blentyn am fwy na 28 diwrnod mewn cyfnod o 12 mis, oni bai mai dim ond i blant dros 16 oed y caiff y llety ei ddarparu.

Lle bo person yn darparu llety a gofal i blentyn neu grŵp o frodyr a chwiorydd yng **nghartref y person ei hun** am ddim mwy na 28 diwrnod mewn cyfnod o 12 mis, bydd wedi'i eithrio o gofrestru.

Gwasanaethau llety diogel

Y ddarpariaeth o lety at y diben o gyfyngu ar ryddid plant mewn safle preswyl yng Nghymru lle darperir gofal a chymorth i'r plant hynny yw "*gwasanaeth llety diogel*".

Nid oes unrhyw eithriadau o'r diffiniad hwn.

Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd

Mae canolfan breswyl i deuluoedd yn cynnwys llety a ddarperir i blant a'u teuluoedd:

(a) lle mae galluedd y rhieni i ymateb i anghenion y plant ac i ddiogelu eu llesiant yn cael ei fonitro neu ei asesu, a

(b) lle y rhoddir i'r rhieni unrhyw ofal a chymorth yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol.

Yn y cyd-destun hwn, mae "rhiant" yn cyfeirio at unrhyw berson sy'n gofalu am y plentyn.

Eithriadau

Mae'r llety a ddarperir yn cael ei ddarparu i blant a'u rhieni mewn **ysbyty, hostel neu loches trais domestig**.

Mae'r llety a gwasanaethau a chyfleusterau eraill yn cael eu **darparu i'r oedolion yn bennaf** ac mae'r ffaith fod eu plant yn bresennol gyda'r unigolion hynny yn eilbeth i brif ddiben y llety.

Gwasanaethau cymorth cartref

Mae gwasanaeth cymorth cartref yn cynnwys y ddarpariaeth (neu wneud trefniadau ar gyfer y ddarpariaeth) o ofal a chymorth i bobl nad ydynt yn gallu ei ddarparu iddynt eu hunain oherwydd eu sefyllfa agored i niwed neu eu hangen ac a ddarperir i'r person lle mae'n byw. Nid yw hyn yn cynnwys yr angen am ofal a chymorth sy'n deillio o oedran ifanc person yn unig.

Mae'r gwasanaeth rheoleiddiedig hwn yn cynnwys y ddarpariaeth o fyw â chymorth a thai gofal ychwanegol. Mae'n rhaid i ddarparwyr y mathau hyn o wasanaethau sicrhau bod y trefniadau cytundebol sydd ganddynt ar waith gydag unigolion sy'n defnyddio eu gwasanaethau ar wahân i unrhyw drefniadau cytundebol yn ymwneud â'r llety a ddarperir.

Mae "gofal" yn golygu tasgau ac anghenion corfforol y person sy'n derbyn gofal o ddydd i ddydd a'r prosesau meddyliol sy'n gysylltiedig â'r tasgau neu'r anghenion hynny, er enghraifft bwyta, ymolchi a rhoi meddyginiaeth a chofio i fwyta, ymolchi a chymryd meddyginiaeth.

Mae "cymorth" yn golygu cwnsela, cyngor neu gymorth arall, a ddarperir yn rhan o gynllun a baratowyd ar gyfer y person sy'n derbyn cymorth gan naill ai awdurdod lleol, darparwr gwasanaeth neu berson arall sy'n darparu gofal a chymorth i'r person. Mae hyn yn cynnwys cymorth gyda thasgau fel siopa a glanhau.

Mae ein Nodyn Ymarfer ar y dehongliad o Ofal a Chymorth yn [Atodiad 1](#) yn nodi rhai o'r gweithgareddau sy'n debygol o gyd-fynd â'r diffiniadau o ofal a chymorth. Bydd gwasanaeth sy'n darparu cymorth yn unig wedi ei eithrio o'r diffiniad o wasanaeth cymorth cartref.

Mae ein Coeden Benderfynu ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Cartref yn [Atodiad 3](#) y canllawiau hyn yn nodi rhai o'r ffactorau i'w hystyried wrth benderfynu p'un a yw gwasanaeth yn perthyn i'r diffiniad o Wasanaeth Cymorth Cartref.

Mae'n rhaid i ddarparwyr gwasanaethau cymorth cartref nodi'r ardal ddaearyddol lle maent yn bwriadu darparu'r gwasanaeth pan fyddant yn gwneud cais i gofrestru. Mae'r ardaloedd daearyddol hyn yn dilyn olion troed y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac maent ar gael yn [Atodiad 3](#). Bydd pob ardal ddaearyddol yn dod yn amod o'ch cofrestriad ac yn wasanaeth unigol ar ddibenion arolygu.

Eithriadau

Nid yw'n ofynnol i wasanaethau sy'n cynnwys y **ddarpariaeth o nyrsys cofrestredig** i unigolion lle maent yn byw gofrestru fel gwasanaeth cymorth cartref.

Mae darpariaeth **gofal nyrsio gan nyrs gofrestredig** wedi'i heithrio o'r diffiniad.

Lle bo **Bwrdd Iechyd Lleol** yn darparu gofal a chymorth i unigolion fel rhan o'r gwaith o ddiwallu eu hanghenion gofal nyrsio, nid oes angen cofrestru ar gyfer hyn.

Mae **Cynorthwyr Personol** wedi eu heithrio o gofrestru ar y sail eu bod yn gweithio o dan gyfeiriad a rheolaeth yr unigolyn sy'n derbyn gofal neu drydydd parti cysylltiedig yn unig. Mae trydydd parti cysylltiedig yn golygu:

- a) unigolyn â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn sy'n derbyn gofal a chymorth;
- b) unigolyn ag atwrneiaeth neu awdurdod cyfreithiol arall i wneud trefniadau ar ran yr unigolyn sy'n derbyn gofal a chymorth;
- c) grŵp o unigolion y cyfeirir atynt yn naill ai (a) neu (b) sy'n gwneud trefniadau ar ran dim mwy na phedwar o unigolion a enwir sy'n derbyn gofal a chymorth;
- ch) ymddiriedolaeth a sefydlwyd at y diben o ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn a enwir.

Mae **Asiantaethau Cynorthwyr Personol** (gan gynnwys trefniadau cydweithredol) wedi eu heithrio cyn belled â'u bod yn gweithredu yn unig i gyflwyno unigolion sy'n darparu gwasanaeth cymorth cartref i unigolion a allai ddymuno ei dderbyn, ond nad oes ganddynt unrhyw swyddogaeth barhaus o ran cyfeiriad a rheolaeth y gofal a'r cymorth a ddarperir. Os hoffech ragor o wybodaeth am sut yr ydym yn asesu hyn, gweler ein canllawiau ar "Cyfeiriad neu reolaeth barhaus gofal a chymorth mewn Gwasanaethau Cymorth Cartref" yn [Atodiad 4](#).

Mae gwasanaethau sy'n darparu **nyrsys cofrestredig** yn unig i gyflawni gweithgareddau nyrsio gydag unigolion yn eu cartrefi eu hunain wedi eu heithrio o gofrestru.

Mae gwasanaeth sy'n darparu gofal a chymorth i **bedwar neu lai o unigolion a enwir** ar unrhyw un adeg wedi ei eithrio o gofrestru. Mae hyn yn cynnwys mentrau cydweithredol sy'n cyflogi gofalcwyr i ddarparu gofal a chymorth i bedwar neu lai o unigolion a enwir.

Nid yw gwasanaethau sy'n darparu **cymorth yn unig** yn wasanaethau cymorth cartref. Fodd bynnag, os darperir cymorth yn rhan o becyn ehangach sy'n cynnwys y ddarpariaeth o "ofal", nid yw hyn wedi ei gynnwys o dan yr eithriad.

Mae gofal a chymorth a ddarperir yn ystod **perthynas deuluol neu bersonol** nad oes budd ariannol amdanynt wedi eu heithrio o'r diffiniad o wasanaeth cymorth cartref. Diffinnir perthynas deuluol neu bersonol fel:

- a) mae perthynas deuluol yn cynnwys perthynas rhwng dau berson sydd—
 - iii) yn byw yn yr un aelwyd, a
 - iv) yn trin ei gilydd fel pe baent yn aelodau o'r un teulu;
- b) mae perthynas bersonol yn berthynas rhwng neu ymhlith ffrindiau;
- c) mae ffrind i berson (A) yn cynnwys person sy'n ffrind i aelod o deulu A.

Mae hyn yn cynnwys unrhyw ofal a chymorth a ddarperir i blentyn gan riant, perthynas neu ofalwr maeth.

Mae asiantaethau cyflogaeth sy'n **cyflenwi gofalwyr i wasanaethau rheoleiddiedig eraill** sydd wedi cofrestru gyda ni wedi eu heithrio o gofrestru.

Mae unigolyn sy'n rheoli **carchar neu sefydliad gwarchodol tebyg arall** wedi ei eithrio o'r diffiniad os yw'n darparu gofal a chymorth i'r unigolion sy'n cael eu cadw yno. Fodd bynnag, os oes gofal a chymorth yn cael eu darparu i unigolion sy'n cael eu cadw gan wasanaeth cymorth cartref, bydd yn ofynnol i'r gwasanaeth hwn gofrestru gyda ni.

Gwasanaethau Maethu

Ystyr Gwasanaeth Maethu yw unrhyw wasanaeth a ddarperir yng Nghymru, gan unrhyw berson heblaw awdurdod lleol, sy'n cynnwys:

- lleoli plant gyda rhieni maeth awdurdod lleol, neu
- gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â lleoliad o'r fath

Ystyr "rhiant maeth awdurdod lleol" yw person a awdurdodwyd yn unol â Rheoliadau sy'n darparu ar gyfer cymeradwyo rhieni maeth awdurdod lleol a wnaed o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu Ddeddf Plant 1989.

Nid oes unrhyw eithriadau o'r diffiniad hwn.

Gwasanaethau Mabwysiadu

Ystyr Gwasanaeth Mabwysiadu yw gwasanaeth a ddarperir yng Nghymru naill ai gan:

- sefydliad dielw sy'n "gymdeithas fabwysiadu", neu
- "asiantaeth cymorth mabwysiadu"

Nodir y diffiniad o gymdeithas fabwysiadu ac asiantaeth cymorth mabwysiadu yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002.

Corff y mae ei swyddogaethau'n cynnwys gwneud trefniadau i fabwysiadu plant yw "cymdeithas fabwysiadu".

Mae "asiantaeth cymorth mabwysiadu" yn golygu menter i ddarparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu, er enghraifft:

- cwnsela, cyngor a gwybodaeth;
- cymorth i rieni mabwysiadol, plant mabwysiadol, a phersonau cysylltiedig mewn perthynas â threfniadau ar gyfer cyswllt rhwng plentyn mabwysiadol a rhiant biolegol neu berson sy'n perthyn i'r plentyn mabwysiadol;

- gwasanaethau a all gael eu darparu i ddiwallu anghenion therapiwtig plentyn mewn perthynas â mabwysiadu'r plentyn;
- cymorth at ddiben sicrhau parhad y berthynas rhwng plentyn a'r rhiant mabwysiadol y plentyn, gan gynnwys—
 - hyfforddiant i'r rhiant mabwysiadol at ddiben diwallu unrhyw anghenion arbennig sydd gan y plentyn yn deillio o'r mabwysiadu;
 - gofal seibiant*;
- cymorth os oes rhywbeth wedi amharu ar drefniant mabwysiadu neu leoliad, neu os oes perygl y bydd hynny'n digwydd, gan gynnwys—
 - cyfryngu;
 - trefnu a chynnal cyfarfodydd i drafod pethau sy'n amharu ar drefniadau mabwysiadu neu leoliadau;
- cymorth i bobl fabwysiedig sydd wedi cyrraedd 18 oed o ran cael gwybodaeth am eu trefniant mabwysiadu neu hwyluso cyswllt rhwng pobl o'r fath a'u perthnasau**;
- cymorth i berthnasau pobl fabwysiedig sydd wedi cyrraedd 18 oed o ran cael gwybodaeth am y trefniant mabwysiadu hwnnw neu hwyluso cyswllt rhwng pobl o'r fath a'r person mabwysiedig;
- gwasanaethau er mwyn galluogi grwpiau o blant mabwysiadol, rhieni mabwysiadol a rhieni biolegol neu gyn-warcheidwaid plentyn mabwysiadol i drafod materion sy'n ymwneud â mabwysiadu.

* yn achos "gofal seibiant" sy'n cynnwys darparu llety, rhaid i'r llety gael ei ddarparu gan neu ar ran awdurdod lleol o dan adran 81 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 neu gan sefydliad gwirfoddol o dan adran 59 o Ddeddf Plant 1989.

** mae "perthynas" yn golygu unrhyw berson a fyddai'n perthyn i'r person mabwysiedig drwy waed, gan gynnwys hanner gwaed neu briodas, pe na bai'r person hwnnw wedi cael ei fabwysiadu.

Eithriadau

Mae gwasanaeth a ddarperir mewn perthynas â mabwysiadu **gan gyfreithiwr**, yn ystod gweithgarwch cyfreithiol, wedi'i eithrio.

Nid oes angen i wasanaethau sy'n galluogi grwpiau o bobl i **drafad materion sy'n ymwneud â mabwysiadu** i gofrestru. Gall y bobl sy'n cymryd rhan yn y grwpiau hyn fod yn blant mabwysiadol, rhieni mabwysiadol a rhieni biolegol neu gyn-warcheidwaid.

Mae **gofal seibiant** a ddarperir i blentyn mabwysiadol neu riant mabwysiadol gan **wasanaeth cartref gofal neu wasanaeth cymorth cartref** a gofrestrwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 wedi'i eithrio.

Mae **gofal seibiant** a ddarperir i blentyn mabwysiadol gan **warchodwr plant neu ddarparwr gofal dydd** a gofrestrwyd o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 wedi'i eithrio.

Nid oes angen i **unigolyn** sy'n darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu **o dan gontract** â gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig neu wasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol gofrestru.

Mae'r **cyrff/personau** canlynol wedi'u heithrio:

- awdurdodau lleol;
- Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
- Awdurdod Iechyd neu Fwrdd Iechyd Lleol;
- Y Cofrestrydd Cyffredinol

Gwasanaethau Lleoli Oedolion

Darperir gwasanaeth lleoli oedolion at ddiben lleoli oedolion ag unigolyn yng Nghymru o dan gytundeb gofalwr. Ystyr cytundeb gofalwr yw cytundeb i unigolyn ddarparu llety (yn ei gartref) ynghyd â gofal a chymorth i hyd at dri oedolyn.

Mae gwasanaeth lleoli oedolion yn cynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer recriwtio, hyfforddi a goruchwyllo unigolion o'r fath.

Nid oes unrhyw eithriadau o'r diffiniad hwn.

Gwasanaethau Eirioli

Darperir Gwasanaeth Eirioli at ddiben cynrychioli barn plant neu bersonau mewn perthynas â'r canlynol:

- plant sy'n gwneud sylwadau neu sy'n bwriadu gwneud sylwadau i awdurdodau lleol o dan a.174 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu
- bersonau sy'n bwriadu gwneud sylwadau i awdurdodau lleol o dan a.176 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, neu
- eu cynorthwyo i gynrychioli eu barn mewn perthynas â'u hanghenion gofal a chymorth.

Eithriadau

Mae gwasanaeth a ddarperir **gan gyfreithiwr**, yn ystod gweithgarwch cyfreithiol, wedi'i eithrio o gofrestru.

Mae cymorth a roddir mewn perthynas ag achos teuluol gan **swyddog achosion teuluol Cymru (CAFCASS)** wedi'i eithrio o'r diffiniad.

Mae cymorth a roddir gan **Gomisiynydd Plant Cymru** neu gan aelod o'i staff wedi'i eithrio.

Nid oes angen i berson nad yw wedi darparu ac nad yw'n bwriadu darparu gwasanaeth eirioli i fwy na **4 person** mewn unrhyw gyfnod o 12 mis gofrestru.

Mae eiriolaeth a ddarperir gan **berthynas neu ffrind** i'r person y gwneir sylwadau ar ei ran, neu y bwriedir gwneud sylwadau ar ei ran, wedi'i heithrio. Ystyr perthynas yw rhiant neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant, brawd, chwaer, ewythr neu fodryb (boed hynny drwy briodas neu bartneriaeth sifil), nain neu daid, llys-riant, rhiant maeth neu ddarpar fabwysiadwr y caiff y plentyn ei leoli ag ef neu hi.

3. Mathau o Ddarparwyr

Ceir amrywiaeth o wahanol endidau cyfreithiol a all gofrestru i ddarparu gwasanaeth. Mae'r ffurflen gais yn cynnig rhestr o endidau cyfreithiol y mae'n rhaid i ddarparwyr nodi'r math o endid cyfreithiol y maent yn ei gofrestru. Dangosir y rhestr isod.

3.1 Unigolyn

Gall unigolyn gofrestru i ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig fel unig fasnachwr. Cofrestrir fel darparwr gwasanaeth yn enw'r unigolyn ei hun.

3.2 Cyrff Corfforaethol

Cwmni Cyfyngedig

Mae cwmni cyfyngedig yn fath o strwythur busnes sy'n endid cyfreithiol ynddo'i hun. Gall cwmnïau cyfyngedig fod yn gyfyngedig o ran cyfranddaliadau neu drwy warant ac mae'n rhaid iddynt gael eu cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau. Yn y ddau achos, gall y cwmni ymrwymo i gontractau yn ei enw ei hun ac mae'n gyfrifol am ei weithredoedd, ei gyllid a'i rwymedigaethau ei hun.

Mae'n rhaid bod gan gwmni cyfyngedig o leiaf un cyfarwyddwr.

Pan fo cwmni yn is-gwmni i riant-gwmni neu gwmni daliannol, mae'n rhaid i'r endid cyfreithiol sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth gofrestru gyda ni. Er enghraifft, mae'n rhaid mai dyma'r cwmni sy'n ymrwymo i gontractau gyda chomisiynwyr ac unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, yn cyflogi staff ac yn meddu ar bolisi yswiriant o ran y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu.

Cwmni Cyfyngedig Cyhoeddus ("CCC")

Math o gwmni cyfyngedig y gall ei gyfranddaliadau gael eu prynu a'u gwerthu'n rhydd gan y cyhoedd yw CCC. Mae'n rhaid i CCC fod wedi ei gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau ac mae'n rhaid bod ganddo o leiaf dau gyfarwyddwr ac ysgrifennydd.

Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig

Corff corfforaethol ac endid cyfreithiol ar wahân i'w aelodau yw Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig. Mae Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig yn gorfforedig trwy gofrestrriad yn Nhŷ'r Cwmnïau.

Aelodau Partneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig yw'r rheini sy'n llofnodi'r ddogfen ymgorffori ac unrhyw eraill sydd wedi dod yn aelodau wedi hynny trwy gytundeb gyda'r aelodau cyfredol.

Cwmni Elusennol

Mae cwmni elusennol wedi ei gofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau (fel cwmni) a chyda'r Comisiwn Elusennau fel ei endid cyfreithiol ei hun. Trwy fod â statws corfforaethol, gall cwmni elusennol ymrwmo i gontractau yn ei enw ei hun ac mae'n gyfrifol am ei weithredoedd, ei gyllid a'i rhwymedigaethau ei hun. Fel cwmni cyfyngedig, bydd gan yr elusen gyfarwyddwyr ac aelodau.

Sefydliad Corfforedig Elusennol

Sefydliadau elusennol â'u hunaniaeth gyfreithiol eu hunain yw Sefydliadau Corfforedig Elusennol. Gallant ymrwmo i gontractau yn eu henw eu hunain a bod â rhwymedigaeth gyfyngedig, sy'n amddiffyn aelodau ac ymddiriedolwyr rhag colledion ariannol. Cofrestrir Sefydliadau Corfforedig Elusennol gyda'r Comisiwn Elusennau.

Ceir dau fath o strwythur llywodraethu ar gyfer Sefydliadau Corfforedig Elusennol:

- Sefydliad Corfforedig Elusennol Sylfaenol – yr ymddiriedolwyr yw unig aelodau'r sefydliad.
- Sefydliad Corfforedig Elusennol Cyswllt – mae gan y sefydliad hwn aelodau ac ymddiriedolwyr.

3.3 Awdurdodau Lleol

Cyrff corfforaethol a sefydlir o dan adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 1972 yw awdurdodau lleol.

3.4 Byrddau Iechyd Lleol ("BILlau")

Cyrff corfforaethol a sefydlwyd o dan adran 11 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 yw BILlau.

3.5 Cyrff corfforaethol eraill

Ceir gwahanol fathau eraill o gyrff corfforaethol, fel cwmnïau anghyfyngedig a Chymdeithasau Budd Cymunedol, a all ymrwmo i gontractau yn eu henw eu hunain ac sy'n gyfrifol am eu gweithredoedd, eu cyllid a'u rhwymedigaethau eu hunain.

Os nad yw'r math o gorff corfforaethol yr ydych yn gwneud cais i'w gofrestru yn ymddangos ar y rhestr uchod, dylech ddewis "Corff corfforaethol arall" ar y ffurflen gais.

3.6 Partneriaethau

Mae partneriaeth yn cynnwys dau neu fwy o unigolion sy'n cytuno i weithio gyda'i gilydd ar gyfer menter fusnes a rennir. Mae'r unigolion (partneriaid) yn rhannu elw a rhwymedigaethau'r bartneriaeth. Bydd pob partner yn cael ei restru yn amodau cofrestru darparwr gwasanaeth.

Os bydd partner cyfredol yn gadael neu bartner newydd yn ymuno â'r bartneriaeth gofrestredig, mae hyn yn creu partneriaeth newydd yn gyffredinol, sy'n endid cyfreithiol newydd. Gall Darparwyr Gwasanaeth a gofrestrir fel partneriaeth adlewyrchu'r newidiadau hyn trwy wneud cais i amrywio eu hamodau cofrestru, yn hytrach na bod rhaid i'r endid cyfreithiol gyflwyno cais i gofrestru. Gellir gweld sut i wneud hyn yn [Adran 8](#) y canllawiau hyn.

Er nad yw'n ofynnol o dan y gyfraith i bartneriaeth fod â chytundeb partneriaeth, bydd angen i ni fod yn fodlon o ran y trefniadau llywodraethu sydd ar waith.

3.7 Cyrff anghorfforedig

Pwyllgor

Grŵp o bobl sy'n dod at ei gilydd i weithio tuag at nod cyffredin yw pwyllgor, yn aml ar ran sefydliad mwy. Pan fo pwyllgor yn ceisio cofrestru gyda ni, bydd angen i ni fod yn fodlon bod trefniadau llywodraethu cadarn ar waith.

Ymddiriedolaeth Elusennol

Sefydliad a ffurfiwyd i roi hwb i addysg, i hybu iechyd a chysur y cyhoedd, i leddfu tlodi, i hyrwyddo crefydd, neu at unrhyw ddiben arall a ystyrir yn elusennol o dan y gyfraith yw ymddiriedolaeth elusennol.

Bydd angen i ymddiriedolaeth elusennol gofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau yn y rhan fwyaf o achosion.

3.8 Cyrff anghorfforedig eraill

Efallai y bydd mathau eraill o gyrff anghorfforedig sy'n dymuno cofrestru fel Darparwr Gwasanaeth. Os nad yw'r math o gorff anghorfforedig yr ydych yn gwneud cais i'w gofrestru yn ymddangos ar y rhestr uchod, dylech ddewis "Corff anghorfforedig arall" ar y ffurflen gais.

4. Unigolion Cyfrifol

Mae'n rhaid dynodi unigolyn cyfrifol ar gyfer gwasanaeth yn rhan o gais y darparwr cofrestredig.

Wrth ystyried addasrwydd unigolyn cyfrifol dynodedig, mae'n rhaid i ni fod yn fodlon ynghylch y canlynol:

- pa un a yw'r unigolyn yn gymwys;
- pa un a yw'r unigolyn yn addas a phriodol i gael ei ddynodi'n unigolyn cyfrifol; a
- pha un a fydd yr unigolyn yn cydymffurfio â dyletswyddau'r unigolyn cyfrifol a nodir yn y rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf.

4.1 Pwy sy'n gymwys?

Mae Adran 21 y Ddeddf ([Atodiad 13](#)) yn nodi pwy sy'n gymwys i gael ei ddynodi'n unigolyn cyfrifol yn dibynnu ar y math o ddarparwr.

Unigolyn

O ran darparwyr unigol mae'n rhaid i'r unigolyn fod yn unigolyn cyfrifol.

Cwmni Cyfyngedig

Ein disgwyliad yw y byddai hwn yn Gyfarwyddwr, wedi ei gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau. Pan nad yw Cyfarwyddwr yn gallu cyflawni'r swyddogaeth hon, cewch ddynodi "swyddog tebyg". Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i chi ddarparu esboniad pam na all y swyddogaeth hon gael ei chyflawni gan Gyfarwyddwr.

Gweler isod am y diffiniad o swyddog tebyg.

Cwmni Cyfyngedig Cyhoeddus ("CCC")

Dylai'r unigolyn cyfrifol fod yn Gyfarwyddwr neu'n Ysgrifennydd Cwmni.

Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig

Dylai unrhyw un o bartneriaid y Bartneriaeth Atebolrwydd Cyfyngedig fod yn unigolyn cyfrifol. Pan na fydd yr un o'r partneriaid yn gallu cyflawni'r swyddogaeth hon, cewch ddynodi "swyddog tebyg". Gweler isod am y diffiniad o swyddog tebyg.

Cwmni Elusennol

Ar gyfer cwmni elusennol, gallai unigolyn cyfrifol fod yn unrhyw un o'r Cyfarwyddwyr sydd wedi eu cofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau neu unrhyw un o'r ymddiriedolwyr sydd wedi eu cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau. Pan na fydd yr un o'r Cyfarwyddwyr na'r ymddiriedolwyr yn gallu cyflawni'r swyddogaeth hon, cewch ddynodi "swyddog tebyg", er enghraifft y Prif Weithredwr. Gweler isod am y diffiniad o swyddog tebyg.

Sefydliad Corfforedig Elusennol

Naill ai ymddiriedolwr neu aelod o'r Sefydliad Corfforedig Elusennol ddylai fod yr unigolyn cyfrifol dynodedig. Pan nad yw un o'r ymddiriedolwyr neu'r aelodau yn gallu cyflawni'r swyddogaeth hon, cewch ddynodi "swyddog tebyg". Gweler isod am y diffiniad o swyddog tebyg.

Awdurdodau Lleol

Ein disgwyliad ar gyfer Awdurdodau Lleol yw bod yn rhaid i'r unigolyn a ddynodir gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod mewn swydd sy'n ddigon uchel o fewn y sefydliad. Ein disgwyliad yw y dylai fod y cyfarwyddwr ei hun, pennaeth gwasanaeth neu reolwr gwasanaeth.

Byrddau Iechyd Lleol ("BILlau")

Ein disgwyliad ar gyfer Byrddau Iechyd Lleol yw bod yn rhaid i'r unigolyn fod mewn swydd sy'n ddigon uchel o fewn y sefydliad.

Partneriaethau

Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol fod yn un o'r partneriaid.

Pwyllgor

Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol fod yn aelod o'r pwyllgor.

Ymddiriedolaeth Elusennol

Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol fod yn ymddiriedolwr neu'n aelod o'r elusen.

Cyrff anghorfforedig eraill

Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol fod yn aelod o'r corff.

Gellir gofyn i ddarparwyr ddarparu dogfennau ychwanegol i ddangos bod yr unigolyn dynodedig mewn swydd sydd ar lefel ddigon uchel.

"Swyddog tebyg"

Pan fydd darparwr yn dynodi "swyddog tebyg" i fod yn unigolyn cyfrifol, byddwn yn ystyried y meini prawf canlynol wrth asesu pa un a yw'r unigolyn mewn swydd ddigon uchel o fewn y sefydliad;

- awdurdod i gyflogi a diswyddo rheolwyr ac unrhyw staff eraill sy'n gweithio yn y gwasanaeth;
- awdurdod i bennu cyfraddau cyflog ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio'n uniongyrchol o fewn y gwasanaeth;

- awdurdod i wneud penderfyniadau buddsoddi yn y gwasanaeth;
- trosolwg o iechyd a diogelwch ar gyfer y gwasanaeth perthnasol; ac
- atebolrwydd am benderfynu ar drefniadau sicrwydd a phennu unrhyw feincnodau o fewn y gwasanaeth.

4.2 Prawf person addas a phriodol

Mae'n rhaid i ni fod yn fodlon bod yr unigolyn dynodedig yn addas a phriodol. Mae sut yr ydym yn cynnal yr asesiad hwn wedi ei nodi'n fwy manwl ym [mharagraff 6.3](#).

4.3 Dyletswyddau Unigolyn Cyfrifol

Mae Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 ("y Rheoliadau") yn cyflwyno dyletswyddau penodol ar yr unigolyn cyfrifol a bydd angen i ni fod yn fodlon y bydd yr unigolyn cyfrifol a ddynodir ar gyfer pob gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rhain. Mae'r dyletswyddau hyn yn rhoi pwyslais ar sicrhau rheolaeth a throsolwg effeithiol o'r gwasanaeth gyda chanolbwynt ar welliant parhaus. Wrth ddynodi unigolyn cyfrifol, bydd angen i ddarparwyr fod yn hyderus bod yr unigolyn yn gymwys i gyflawni'r dyletswyddau hyn.

Yn rhan o'r broses gofrestru, bydd yn ofynnol i unigolion cyfrifol gwblhau holiadur a chyflawni cyfweiliad addasrwydd. Bwriedir i'r holiadur hwn ddarganfod gallu unigolyn i gydymffurfio â'r dyletswyddau a orfodir arnynt gan y rheoliadau a nodir unrhyw feysydd i'w trafod ymhellach yn y cyfweiliad addasrwydd. Nodir y cwestiynau yn [Atodiad 6](#).

Wrth ystyried addasrwydd yr unigolyn cyfrifol, byddwn hefyd yn ystyried ei benodiad o reolwr ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r ddeddfwriaeth yn caniatáu i'r unigolyn cyfrifol weithredu fel rheolwr y gwasanaeth hefyd o dan amgylchiadau rhagnodedig. Nodir y rhain isod:

Os ydych wedi eich cofrestru fel unigolyn, bydd hyn yn bosibl dim ond os bydd yr amodau canlynol yn wir:

- rydych yn addas i reoli'r gwasanaeth;
- rydych wedi eich cofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru; **ac**
- rydym yn cytuno i chi gyflawni'r ddwy swyddogaeth.

Os ydych yn unigolyn cyfrifol mewn partneriaeth neu sefydliad, bydd hyn yn bosibl dim ond os bydd yr amodau canlynol yn wir:

- mae'r darparwr gwasanaeth wedi ei gofrestru i ddarparu dim mwy na dau o wasanaethau;

- rydych yn addas i reoli'r gwasanaeth;
- rydych wedi eich cofrestru fel rheolwr gofal cymdeithasol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru; **ac**
- rydym yn cytuno i chi gyflawni'r ddwy swyddogaeth.

5. Gwneud cais

Mae'n rhaid i bob cais i gofrestru gwasanaeth rheoleiddiedig gael ei wneud trwy [Arolygiaeth Gofal Cymru Ar-lein](#).

Er ein bod yn cydnabod y gallai nifer fach o ymgeiswyr gael trafferth yn cael mynediad at Arolygiaeth Gofal Cymru Ar-lein, rydym yn awgrymu chwilio am opsiynau eraill; fel llyfrgelloedd lleol neu leoliadau eraill sy'n cynnig mynediad dibynadwy at y rhyngwyd.

Os, ar ôl archwilio'r opsiynau hyn y bydd ymgeiswyr yn dal i gael trafferthion yn cael mynediad at Arolygiaeth Gofal Cymru Ar-lein, gellir gwneud trefniadau i ymweld ag un o'n swyddfeydd i gwblhau'r cais ar-lein gyda chymorth digidol gan aelod o'n staff.

Ffurflen Gais

Mae'r ffurflen gais mewn **tair** rhan ar wahân:

5.1 Gwybodaeth am y darparwr gwasanaeth

Bydd y rhan hon o'r ffurflen yn casglu manylion am y darparwr gwasanaeth. Pan fo'r darparwr gwasanaeth yn sefydliad, bydd angen gwybodaeth arnom am yr unigolion perthnasol yn rhan o'n hasesiad person addas a phriodol. Bydd angen i ymgeiswyr nodi'r math o endid cyfreithiol y maent yn ymgeisio ar ei ffurf, er enghraifft unigolyn, cwmni cyfyngedig, cwmni elusennol ac ati. Gellir gweld y gwahanol fathau o ddarparwr gwasanaeth ym Mhennod 3.

5.2 Y math o wasanaeth(au) rheoleiddiedig yr ydych yn gwneud cais i'w ddarparu

Gwybodaeth am y gwasanaeth(au) rheoleiddiedig, gan gynnwys:

- y lleoliad;
- safle;
- ystod oedran pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth;
- uchafswm y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth (pan fo'n briodol)
- Datganiad o Ddiben wedi ei lanlwytho ar gyfer y gwasanaeth(au).

5.3 Yr unigolyn cyfrifol dynodedig

Bydd angen i'r darparwr gwasanaeth ddynodi unigolyn cyfrifol ar gyfer pob gwasanaeth y mae'n gwneud cais i'w gofrestru. Os mai'r unigolyn cyfrifol dynodedig yw'r unigolyn sy'n cwblhau'r cais, bydd ei adran o'r ffurflen yn cael ei arddangos ar-lein. Os nad yr unigolyn cyfrifol yw'r sawl sy'n cwblhau'r ffurflen gais, bydd yn derbyn e-bost yn ei hysbysu am ei ddynodiad ac yn gofyn iddo fewngofnodi i Arolygiaeth Gofal Cymru Ar-lein i gwblhau ei adran o'r cais. Pan fydd yr unigolyn cyfrifol yn

mewngofnodi, mae'n rhaid iddo ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a nodwyd yn y cais i sicrhau y gellir cyfateb ei fanylion i'r gwasanaeth cywir.

Pan fydd holl adrannau'r ffurflen wedi eu cwblhau gan yr unigolyn cyfrifol, bydd yr ymgeisydd yn cael ei hysbysu ac yn cael ei gyfarwyddo i fewngofnodi i Arolygiaeth Gofal Cymru Ar-lein i gyflwyno'r cais.

Gofynnir i ymgeiswyr nodi a ydynt yn cytuno i gyfathrebu â ni yn electronig. Bydd hyn yn cynnwys pob llythyr a Hysbysiad cyfreithiol.

5.4 Gwybodaeth a dogfennau gofynnol

Mae [Atodiad 8](#) yn cynnwys crynodeb fwy manwl o'r wybodaeth a'r dogfennau sy'n ofynnol yn y ffurflen gais.

Mae angen archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd arnom ar gyfer pob ymgeisydd unigol ac unigolyn cyfrifol. Er mwyn i'r archwiliad hwn fod yn ddilys, mae'n rhaid iddo fod yn llai na 3 mis oed ar adeg cyflwyno'r cais neu mae'n rhaid i'r unigolyn fod yn rhan o Wasanaeth Diweddariadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Bydd angen i ni weld y dystysgrif hon yn rhan o'r broses gofrestru. Gellir anfon hon atom trwy bost cofnodedig neu gall yr unigolyn ddod â hi i'w gyfweliad addasrwydd.

5.5 Diweddariadau ar gynnydd

Ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno, gall yr ymgeisydd olrhain ei gynnydd trwy Arolygiaeth Gofal Cymru Ar-lein.

Ni fydd cais yn cael ei dderbyn tan iddo basio ein **gwiriad cyflawnrwydd** (Atodiad 9). Mae hyn i sicrhau bod y wybodaeth allweddol yn ddilys a/neu wedi ei chynnwys. Pan na fydd cais yn pasio ein **gwiriad cyflawnrwydd**, bydd yr ymgeisydd yn cael ei hysbysu am y rhannau sydd angen ei sylw.

Ar ôl i'r **gwiriad cyflawnrwydd** gael ei basio, bydd y cais yn cael ei dderbyn gennym ni a'r ymgeisydd yn cael ei hysbysu.

Bydd cynnydd eich cais yn cael ei ddangos ar AGC Ar-lein.

6. Asesu'r cais

Ar ôl i'r cais gael ei dderbyn, rydym yn cynnal **asesiad ansawdd**.

6.1 Ffactorau ar gyfer penderfynu

Byddwn yn ystyried y canlynol wrth wneud penderfyniad ar gais:

- A yw'r ffurflen gais yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol?
- A ydym yn fodlon bod yr ymgeisydd yn 'berson addas a phriodol'?
- A ydym yn fodlon bod yr unigolyn cyfrifol dynodedig yn addas?
- A ydym yn fodlon y bydd y darparwr gwasanaeth yn cydymffurfio â gofynion y rheoliadau ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall?

Mae [Atodiad 9](#) yn cyflwyno ein Fframwaith Penderfyniadau, sy'n cynnwys y ffynonellau tystiolaeth yr ydym yn eu hystyried wrth wneud ein penderfyniadau a phennu ein disgwyliadau.

6.2 A yw'r cais yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol?

Bydd ein gwiriad cyflawnrwydd cychwynnol yn sicrhau bod y ffurflen gais yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. Os byddwn yn canfod nad yw'r wybodaeth neu'r dogfennau a ddarparwyd yn ddigon manwl, byddwn yn gofyn i hyn gael ei ddatrys.

6.3 Person Addas a Phriodol

Wrth wneud unrhyw benderfyniad am gofrestru darparwr gwasanaeth, mae'n rhaid i ni fod yn fodlon bod y darparwr gwasanaeth a'r unigolyn cyfrifol yn "addas a phriodol" i fod yn darparu gwasanaethau rheoleiddiedig. Mae Adran 9 y Ddeddf ([Atodiad 14](#)) yn cyflwyno'r prawf person addas a phriodol. Mae Is-adrannau (4) - (8) yn nodi'r gwahanol faterion sy'n debygol o effeithio ar addasrwydd darparwr gwasanaeth neu unigolyn cyfrifol, fel: cyflawni troseddau, cysylltiad ag unigolyn sydd wedi cyflawni troseddau, cyfranogiad blaenorol yng nghamweinyddiad neu gamreolaeth gwasanaeth rheoleiddiedig a materion o ddiffyg cydymffurfiaid â'r rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni roi ystyriaeth hefyd i'r holl faterion yr ydym o'r farn eu bod yn briodol.

Bydd ein hasesiad o addasrwydd yn cynnwys unrhyw wybodaeth sydd eisoes yn hysbys i ni am ddarparwr gwasanaeth neu unigolyn cyfrifol. Efallai y byddwn yn cysylltu â rheoleiddwyr eraill (fel Gofal Cymdeithasol Cymru neu'r Comisiwn Ansawdd Gofal) am wybodaeth pan fo'n briodol. Wrth ystyried unrhyw faterion blaenorol yn ymwneud â chamweinyddu neu gamreoli gwasanaeth rheoleiddiedig byddwn, ymhlith materion eraill, yn cymryd y canlynol i ystyriaeth:

- (a) difrifoldeb a hyd y camweinyddu neu gamreoli;
- (b) niwed a achoswyd i unrhyw unigolyn, neu unrhyw dystiolaeth o fwriad i achosi niwed;

- (c) unrhyw elw ariannol a wnaed gan yr unigolyn;
- (ch) unrhyw gamau a gymerwyd gan yr unigolyn i unioni'r camweinyddu neu gamreoli.

Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr unigol ac unigolion cyfrifol gyflawni archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn rhan o'r broses gofrestru.

Os bydd datgeliad cadarnhaol mewn archwiliad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, byddwn yn ystyried a oes angen cymryd unrhyw gamau pellach. Gallai hyn gynnwys cynnal cyfweiliad, er mwyn canfod a yw'r datgeliad yn debygol o gael effaith ar addasrwydd yr unigolyn i fod yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr unigol ac unigolion cyfrifol ddarparu 2 dystlythyr yn ymwneud â'u cymhwysedd i gyflawni swyddogaeth yr unigolyn cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth (au) rheoleiddiedig.

6.4 Addasrwydd yr Unigolyn Cyfrifol

Mae Pennod 4 yn nodi'r meini prawf addasrwydd yr ydym yn eu defnyddio wrth ystyried dynodiad unigolyn cyfrifol.

Gallai'r un unigolyn cyfrifol gael ei ddynodi yng nghyswllt mwy nag un gwasanaeth. Fodd bynnag, bydd angen i ni fod yn fodlon na fydd hyn yn effeithio ar ei allu i gyflawni ei ddyletswyddau o ran pob un o'r gwasanaethau hynny. Byddwn yn ystyried y canlynol wrth gynnal ein hasesiad:

- Ystod y gwasanaethau rheoleiddiedig
- Maint a chymhlethdod y gwasanaethau
- Lleoliad daearyddol y gwasanaethau
- Yr ymatebion a ddarparwyd yn holiadur yr unigolyn cyfrifol
- Pa un a yw'r unigolyn cyfrifol yn gysylltiedig ag unrhyw wasanaethau rheoleiddiedig eraill yn y DU

6.5 Cydymffurfiaid â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol

Bydd angen i ni fod yn fodlon y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu yn y fath ffordd y bydd yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth berthnasol. Bydd hyn yn cynnwys y rheoliadau a wneir o dan y Ddeddf ac unrhyw ddeddfwriaeth arall sy'n berthnasol i'r gwasanaeth, fel deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

Mae'r Rheoliadau a'r Canllawiau Llywodraeth Cymru atodol ([Atodiad 7](#)) yn nodi'r gofynion ar ddarparwyr gwasanaeth. Mae ein Fframwaith Penderfyniadau yn cynnig mwy o fanylion am y ffynonellau tystiolaeth yr ydym yn eu defnyddio i wneud ein penderfyniadau cofrestru.

Rydym yn cynnal asesiad safle yn rhan o bob cais cofrestru. Cynhelir yr asesiad hwn yn erbyn y Datganiad o Ddiben. Mae [Atodiad 8](#) yn cynnwys y gwahanol ddogfennau sydd eu hangen arnom yn yr asesiad safle.

Wrth wneud ein penderfyniad, byddwn yn rhesymol ac yn gymesur yn y wybodaeth yr ydym yn gofyn amdani ac yn gofyn am dystiolaeth ychwanegol dim ond pan fo'n angenrheidiol i'n cynorthwyo i wneud penderfyniad.

Byddwn yn ymdrechu i wneud penderfyniadau am geisiadau cofrestru yn brydlon. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom neu lle ceir materion penodol y mae angen eu datrys yng nghyswllt gwasanaeth, efallai y bydd angen i ni ymestyn yr amser y mae'n ei gymryd i ni brosesu'r cais.

7 Penderfyniadau cofrestru

Bydd ymgeiswyr sy'n gwneud cais i gofrestru un gwasanaeth yn derbyn un Hysbysiad penderfyniad.

Pan fydd darparwr gwasanaeth wedi gwneud cais i gofrestru mwy nag un gwasanaeth yn rhan o'r un cais, rydym yn cyflwyno Hysbysiad penderfyniad i bob gwasanaeth sy'n golygu y bydd y darparwr gwasanaeth yn cael ei gofrestru gyda ni. Mae hyn er mwyn atal oediadau cyn cofrestru pob gwasanaeth.

7.1 Cymeradwyo cais

Pan fydd ymgeisydd wedi dynodi ei fod yn cytuno i'r amodau cofrestru arfaethedig ar y ffurflen gais ac rydym yn bwriadu cymeradwyo'r cais, byddwn yn cyflwyno Hysbysiad o Benderfyniad i gymeradwyo'r cais. Bydd y cofrestriad ar waith ar yr un diwrnod ag y cyflwynir yr Hysbysiad.

7.2 Cymeradwyo cais ag amodau wedi eu gorfodi

Pan rydym yn bwriadu cymeradwyo cais ond nad yw'r ymgeisydd wedi nodi ei fod yn cytuno i'r amodau cofrestru arfaethedig ar y ffurflen gais, neu rydym yn bwriadu gorfodi amodau ychwanegol, byddwn yn cyflwyno Hysbysiad o Gynnig i orfodi amodau. Er enghraifft, pan fo ymgeisydd wedi gofyn i gofrestru cartref gofal ag uchafswm capasiti o 60 o bobl, ond rydym ni'n cynnig cofrestru'r gwasanaeth ag uchafswm capasiti o 50 o bobl.

Bydd yr Hysbysiad yn nodi'r holl amodau yr ydym yn bwriadu eu gorfodi, y rhesymau pam a'r amserlen sydd gan yr ymgeisydd i wneud sylwadau ar ein cynnig.

O dan amgylchiadau penodol, gallwn nodi camau a fyddai'n arwain i ni beidio â gorfodi'r amod pe baent yn cael eu cymryd yn unol â therfyn amser penodedig. Er enghraifft, cynnig i leihau uchafswm capasiti'r gwasanaeth oni bai y cymerir camau unioni i wella'r safle.

Mae Hysbysiad o Benderfyniad i gymeradwyo cais a gyflwynir yn dilyn Hysbysiad o Gynnig yn weithredol 28 diwrnod ar ôl ei gyflwyno, oni bai fod apêl yn cael ei wneud i'r Tribiwnlys.

Os na fydd apêl yn cael ei wneud felly, bydd y cofrestriad yn weithredol 28 diwrnod ar ôl i ni gyflwyno'r Hysbysiad o Benderfyniad. Os bydd apêl yn cael ei wneud, ni fydd cofrestriad yn weithredol tan i'r Tribiwnlys wneud penderfyniad ar yr apêl neu i'r apêl gael ei dynnu yn ôl.

7.3 Gwrthod cais

Pan rydym yn bwriadu gwrthod cais i gofrestru, byddwn yn cyflwyno Hysbysiad o Gynnig. O dan amgylchiadau penodol, efallai y byddwn yn nodi camau a fyddai'n arwain i ni beidio â chymryd y camau arfaethedig pe baent yn cael eu cymryd yn unol

â therfyn amser penodedig. Er enghraifft, cynnig i wrthod cais oni bai fod unigolyn cyfrifol boddhaol arall yn cael ei ddynodi.

Bydd yr Hysbysiad yn nodi'r rhesymau pam rydym yn gwrthod y cais a'r amserlen ar gyfer gwneud sylwadau ar ein cynnig.

Mae Hysbysiad o Benderfyniad i wrthod cais a gyflwynir yn dilyn Hysbysiad o Gynnig yn weithredol 28 diwrnod ar ôl ei gyflwyno, oni bai fod apêl yn cael ei wneud i'r Tribiwnlys.

7.4 Y broses Sylwadau ac Apeliadau

Sylwadau

Os byddwch yn cyflwyno Hysbysiad o Gynnig i orfodi amodau ar gofrestriad neu i wrthod cais, bydd yr Hysbysiad yn rhoi terfyn amser ar gyfer gwneud sylwadau i ni. Bydd hwn yn cael ei nodi yn yr Hysbysiad, ond mae'n rhaid iddo fod yn 28 diwrnod o leiaf.

Ein nod fydd ymateb trwy gyflwyno Hysbysiad o Benderfyniad o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad terfyn ar gyfer sylwadau fynd heibio. Os na fyddwn yn gallu ymateb o fewn 28 diwrnod, byddwn yn hysbysu'r cais am hyn a'r rhesymau pam. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn cyflwyno Hysbysiad o Benderfyniad o fewn 56 diwrnod i'r terfyn amser ar gyfer sylwadau fynd heibio. Rydym yn ystyried sylwadau yn unol â'n Proses Sylwadau [Atodiad 10](#).

Bydd yr Hysbysiad o Benderfyniad yn nodi pa un a ydym yn bwriadu cymryd y camau arfaethedig, y rhesymau pam ac yn esbonio unrhyw hawliau apêl.

Apeliadau

Mae'n rhaid i unrhyw apêl gael ei wneud yn uniongyrchol i'r Tribiwnlys erbyn y dyddiad terfyn a nodir yn yr Hysbysiad o Benderfyniad. Bydd y Tribiwnlys yn nodi'r amserlen ar gyfer yr achos wedyn.

Gall y Tribiwnlys gadarnhau'r penderfyniad i wrthod y cais, gwrthdroi'r penderfyniad, cyfarwyddo y dylai'r cais gael ei ganiatáu, neu wneud unrhyw orchymyn arall y mae'n credu sy'n briodol.

7.5 Amodau cofrestru

O dan y Ddeddf nid oes angen tystysgrifau cofrestru mwyach. Fodd bynnag, bydd ein gwefan yn cynnwys cofrestr o'r holl ddarparwyr cofrestredig a'u hamodau cofrestru.

Bydd yr amodau hyn yn amrywio yn dibynnu ar y math o wasanaeth. Ar gyfer gwasanaethau seiliedig ar lety bydd gan y gwasanaeth yr amodau cofrestru safonol canlynol bob amser:

- Lleoliad y gwasanaeth
- Dynodiad yr Unigolyn Cyfrifol
- Uchafswm nifer yr unigolion y gellir eu lletya

Ar gyfer gwasanaethau yn y gymuned bydd gan y gwasanaeth yr amodau cofrestru safonol canlynol bob amser:

- Yr ardal ddaearyddol lle darperir y gwasanaeth
- Dynodiad yr Unigolyn Cyfrifol

Ar gyfer darparwyr gwasanaeth sy'n bartneriaethau, rydym yn rhestru enwau'r partneriaid fel amodau cofrestru. Gwneir hyn er mwyn osgoi newid yn aelodaeth y bartneriaeth sydd angen cais i gofrestru endid cyfreithiol newydd.

Gallwn osod amodau ar gofrestriad Darparwr Gwasanaeth pan fydd yn cofrestru ac unwaith y bydd y gwasanaeth yn dod yn weithredol.

8. Hysbysiadau ac Amrywiadau Ar-lein

Unwaith y caiff gwasanaeth ei gymeradwyo, bydd angen i'r Unigolion Cyfrifol actifadu eu cyfrif AGC Ar-lein, sy'n eu galluogi i gyflwyno hysbysiadau a gwneud cais i amrywio'r amodau cofrestru. Hwn yw'r un cyfrif a fydd wedi ei ddefnyddio yn ystod y broses gofrestru.

Ceir canllaw ar gyfer actifadu cyfrif AGC Ar-lein yn [Atodiad 15](#) i'r canllaw hwn.

8.1 Amrywio amodau

Gellir amrywio amodau cofrestru Darparwr Gwasanaeth naill ai drwy i ni gymryd camau gweithredu i wneud hyn, neu drwy gais Darparwr Gwasanaeth.

8.2 Camau gweithredu a gymerir gennym

Mae'r math o gamau gweithredu rydym yn cynnig eu cymryd yn pennu'r math o Hysbysiad y byddwn yn ei gyflwyno.

O dan yr amgylchiadau canlynol, byddwn yn rhoi Hysbysiad o Gynnig:

- Gosod amodau ar gofrestrriad darparwr gwasanaeth
- Amrywio amodau ar gofrestrriad darparwr gwasanaeth (ac eithrio amrywio unigolion cyfrifol)

Byddwn yn rhoi Hysbysiad Gwella o dan yr amgylchiadau canlynol:

- Dileu gwasanaeth rheoleiddiedig neu wasanaeth o gofrestrriad darparwr gwasanaeth
- Canslo cofrestrriad darparwr gwasanaeth
- Canslo dynodiad unigolyn cyfrifol

Bydd pob Hysbysiad a roddir gennym yn nodi'r camau gweithredu y bwriadwn eu cymryd, y rheswm/rhesymau dros gymryd y camau gweithredu a therfyn amser i'r derbynnydd wneud sylwadau i ni. Gall yr amserlen ar gyfer gwneud sylwadau amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau, ond ym mhob achos mae'n rhaid iddi fod o leiaf 28 diwrnod i'r dyddiad y rhoddir yr Hysbysiad.

Mae ein Proses Sylwadau yn [Atodiad 10](#) yn nodi'r broses ar gyfer gwneud sylwadau a sut rydym yn ymateb iddynt.

8.3 Ceisiadau gan Ddarparwyr Gwasanaethau

Gall Ddarparwyr Gwasanaethau wneud cais i amrywio eu hamodau yn y ffyrdd canlynol drwy AGC Ar-lein:

- Ychwanegu gwasanaeth
- Dileu gwasanaeth
- Dynodi Unigolyn Cyfrifol newydd ar gyfer gwasanaeth
- Canslo dynodiad Unigolyn Cyfrifol ar gyfer gwasanaeth

- Amrywio uchafswm nifer yr unigolion y gellir eu lletya

Mae [Atodiad 16](#) yn nodi'r wybodaeth a'r dogfennau y bydd angen i ddarparwr eu cyflwyno fel rhan o bob cais amrywio.

Dim ond Unigolyn Cyfrifol y gwasanaeth all wneud cais i amrywio amodau cofrestru.

Lle rydym yn bwriadu cymeradwyo cais, byddwn yn rhoi Hysbysiad o Benderfyniad i gymeradwyo'r cais. Mae'r penderfyniad yn weithredol ar yr un diwrnod y rhoddir yr Hysbysiad.

Lle rydym yn bwriadu gwrthod cais, byddwn yn rhoi Hysbysiad o Gynnig. Mewn amgylchiadau penodol, gallwn bennu'r camau a fyddai'n golygu na fyddem yn cymryd y camau a gynigir pe baent yn cael eu cymryd o fewn terfyn amser a bennir. Os byddwn yn rhoi Hysbysiad o Gynnig i wrthod cais, bydd yr Hysbysiad yn rhoi terfyn amser i wneud sylwadau i ni. Mae ein Proses Sylwadau yn [Atodiad 10](#) yn nodi'r broses ar gyfer gwneud sylwadau a sut rydym yn ymateb iddynt.

Atodiad 1. Nodyn Ymarfer ar ddehongli gofal a chymorth

Mae'r Nodyn Ymarfer hwn yn ymwneud â gwasanaethau y mae angen iddynt gofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, a'i nod yw rhoi enghreifftiau ymarferol o'r mathau o weithgareddau a ystyrir yn weithgareddau "gofal" neu "cymorth" o fewn y gwahanol wasanaethau a reoleiddir.

Y Fframwaith Cyfreithiol

Mae Adran 3 o'r Ddeddf yn diffinio gofal a chymorth yn y termau canlynol:

ystyr **"gofal"** yw —

(i) tasgau ac anghenion corfforol beunyddiol yr unigolyn sy'n derbyn gofal (er enghraifft bwyta ac ymolchi)

(ii) y prosesau meddyliol sy'n gysylltiedig â'r tasgau a'r anghenion hynny (er enghraifft y broses feddyliol o gofio bwyta a golchi);

ystyr **"cymorth"** yw cwnsela, cyngor neu gymorth arall, a roddir fel rhan o gynllun a baratoir ar gyfer yr unigolyn sy'n cael cymorth gan —

(i) darparwr gwasanaeth neu unigolyn arall sy'n darparu gofal a chymorth i'r unigolyn, neu

(ii) awdurdod lleol (hyd yn oed os nad yw'r awdurdod yn darparu gofal a chymorth i'r unigolyn).

Nid yw gwasanaeth sy'n darparu cymorth yn unig yn bodloni'r diffiniad o wasanaeth cymorth cartref neu wasanaeth cartref gofal.

Gwasanaethau cartrefi gofal

Mae gwasanaeth cartref gofal yn darparu llety, **ynghyd â** chymorth nyrsio neu ofal, i unigolyn/unigolion oherwydd eu natur agored i niwed neu anghenion.

Os yw'r endid cyfreithiol sy'n darparu'r llety hefyd yn darparu un o'r gweithgareddau a nodir isod, neu gyfuniad ohonynt, i'r unigolyn, yna mae'r gwasanaeth yn debygol o fodloni'r diffiniad o gartref gofal.

Mae gofal yn cynnwys:

- Help i gyflawni gweithredoedd y corff fel bwydo, ymolchi a cherdded (gan gynnwys atgoffa'r unigolyn i wneud hyn);
- Help i reoli ymataliaeth (gan gynnwys atgoffa'r unigolyn i wneud hyn);
- Help gyda gofal y geg a gofal deintyddol (gan gynnwys atgoffa'r unigolyn i wneud hyn);
- Rhoi meddyginiaeth (gan gynnwys atgoffa'r unigolyn i wneud hyn)
- Help i wisgo (gan gynnwys atgoffa'r unigolyn i wneud hyn); neu
- Help i gynnal iechyd y croen (gan gynnwys atgoffa'r unigolyn i wneud hyn)

**Noder - nid yw "atgoffa" yn cynnwys cyngori neu gwnsela unigolyn i wneud y gweithgareddau uchod.*

Lle y caiff plant eu lletya, mae gofal hefyd yn cynnwys:

Rhoi mesurau a/neu ffiniau sy'n debyg i rai rhieni ar waith **yn unol â'r anghenion a nodir mewn unrhyw gynlluniau gofal a chymorth a/neu asesiadau risg**, er enghraifft:

- Paratoi prydau a diodydd;
- Monitro lleoliad y plentyn ac ymateb i unrhyw achosion o absenoldeb heb eu hesbonio yn unol â'r protocolau cenedlaethol;
- Cyfyngu ar ymwelwyr a gosod cyrffys*;
- Cyfyngu ar fynediad i arian (heb awdurdod cyfreithiol); neu
- Rhoi mesurau rheoli ymddygiad ar waith.

*Nid yw hyn yn cynnwys mesurau a roddir ar waith er mwyn rhedeg safleoedd amlbreswyliaeth yn ddidrafferth.

Mae cymorth yn cynnwys:

- Help i fynd i apwyntiadau;
- Help i fynd allan, er enghraifft i siopa neu fan addoli;
- Help i reoli materion, er enghraifft help i ddarllen;
- Help i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y cartref;
- Help gyda nam ar y synhwyr, er enghraifft atgoffa'r unigolyn i ddefnyddio cymhorthion a'i helpu i ddeall eu pwysigrwydd.
- Helpu'r unigolyn i reoli ei arian;
- Help i feithrin sgiliau byw'n annibynnol, er enghraifft coginio a glanhau, rheoli tenantiaeth; neu
- Help drwy gynnig cyngor neu gwnsela.

Nid yw gwasanaeth sy'n darparu llety a chymorth yn unig yn bodloni'r diffiniad o wasanaeth cartref gofal.

Gwasanaethau Cymorth Cartref

Mae gwasanaeth cymorth cartref yn cynnwys darparu (neu wneud trefniadau i ddarparu) gofal a chymorth i bobl na allant ofalu amdanynt eu hunain oherwydd eu bod yn agored i niwed neu oherwydd eu hanghenion, a chaiff ei ddarparu i'r unigolyn yn ei gartref. Nid yw hyn yn cynnwys yr angen am ofal a chymorth sy'n deillio'n gyfan gwbl o'r ffaith bod unigolyn yn ifanc.

Mae gofal yn cynnwys:

- Help i gyflawni gweithredoedd y corff fel bwydo, ymolchi a cherdded (gan gynnwys atgoffa'r unigolyn i wneud hyn)
- Help i reoli ymataliaeth (gan gynnwys atgoffa'r unigolyn i wneud hyn)
- Help gyda gofal y geg a gofal deintyddol (gan gynnwys atgoffa'r unigolyn i wneud hyn)

- Rhoi meddyginiaeth a gedwir ar y safle lle mae'r unigolyn yn byw (gan gynnwys atgoffa'r unigolyn i'w cymryd)
- Help i wisgo (gan gynnwys atgoffa'r unigolyn i wneud hyn)
- Help i gynnal iechyd y croen (gan gynnwys atgoffa'r unigolyn i wneud hyn)
- Help gyda gofal personol, gan gynnwys tasgau gofal corfforol personol, fel eillio neu ofal yr ewinedd.


**Noder – rhaid i'r gweithgareddau hyn gael eu cwblhau lle mae'r unigolyn yn byw, h.y. ar y safle ffisegol lle mae'n byw.*

Mae cymorth yn cynnwys:


- Help i fynd i apwyntiadau
- Help i fynd allan, er enghraifft i siopa neu fan addoli
- Help i reoli materion, er enghraifft help i reoli cytundeb tenantiaeth
- Helpu'r unigolyn i reoli ei arian
- Help i gynnal diogelwch yr annedd

Wrth ystyried a yw'n ofynnol i wasanaeth gael ei gofrestru, bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn cynnal asesiad cyfannol o'r gweithgareddau a gwblheir. Gall hyn gynnwys ystyried cynlluniau gofal a chymorth a/neu asesiadau risg y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth


Atodiad 2. Coeden benderfynu ar gyfer gwasanaeth cartref gofal



Atodiad 3 Coeden benderfynu ar gyfer gwasanaeth cymorth cartref



Coeden benderfynu ar gyfer gwasanaeth cymorth cartref parhad



Atodiad 4. Canllawiau ar “Cyfeiriad neu reolaeth barhaus gofal a chymorth mewn Gwasanaethau Cymorth Cartref”

Crynodeb

Mae gan y diffiniad o wasanaeth cymorth cartref eithriad ar gyfer unigolion sy'n cyflwyno gweithiwr gofal i unigolyn, ond nad oes ganddynt unrhyw “swyddogaeth barhaus yng nghyfeiriad neu reolaeth y gofal a'r cymorth a ddarperir” wedyn.

Mae'r canllawiau hyn yn egluro ystyr ‘cyfeiriad neu reolaeth barhaus y gofal a'r cymorth a ddarperir’.

*Sylwer y bwriedir i'r defnydd o'r term “gweithiwr gofal” yn y canllawiau hyn gynnwys unigolion sy'n cyflawni amrywiaeth o swyddogaethau ac ni fwriedir iddo gyd-fynd â'r diffiniad o “weithiwr gofal cymdeithasol” o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Diffiniad o wasanaeth cymorth cartref

Mae Adran 8(1) Atodlen 1 y Ddeddf yn cynnwys y diffiniad o wasanaeth cymorth cartref:

(1) “*Gwasanaeth cymorth cartref*” yw'r ddarpariaeth o ofal a chymorth i berson nad yw'n gallu eu darparu iddo'i hun oherwydd sefyllfa agored i niwed neu angen (ac eithrio sefyllfa agored i niwed neu angen sy'n codi dim ond oherwydd bod y person o oedran ifanc) ac a ddarperir yn y lle yng Nghymru lle mae'r person yn byw (gan gynnwys gwneud trefniadau ar gyfer gwasanaethau sy'n gysylltiedig â darpariaeth o'r fath neu eu darparu).

Eithriad

Mae Adran 8(3) Atodlen 1 y Ddeddf yn cynnwys yr eithriad:

(3) Ni ddylid trin person sy'n cyflwyno unigolion sy'n darparu gwasanaeth cymorth cartref i unigolion a allai ddymuno ei dderbyn ond nad oes ganddo unrhyw swyddogaeth barhaus yng nghyfeiriad neu reolaeth y gofal a'r cymorth a ddarperir fel ei fod yn darparu gwasanaeth cymorth cartref (pa un a yw'r cyflwyniad am elw ai peidio).

Mae **Cynorthwyyr Personol** wedi eu heithrio o gofrestru ar y sail eu bod yn gweithio o dan gyfeiriad a rheolaeth yr unigolyn sy'n derbyn gofal neu drydydd parti cysylltiedig yn unig. Mae trydydd parti cysylltiedig yn golygu:

- unigolyn â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn sy'n derbyn gofal a chymorth;
- unigolyn ag atwrneiaeth neu awdurdod cyfreithiol arall i wneud trefniadau ar ran yr unigolyn sy'n derbyn gofal a chymorth;

- grŵp o unigolion y cyfeirir atynt yn naill gategori neu'r llall sy'n gwneud trefniadau ar ran dim mwy na phedwar o unigolion a enwir sy'n derbyn gofal a chymorth;
- ymddiriedolaeth a sefydlwyd at y diben o ddarparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn a enwir.

Beth sydd wedi ei gynnwys fel 'swyddogaeth barhaus'?

Mae'n rhaid i berson gofrestru fel gwasanaeth cymorth cartref os yw'n cyflwyno gweithiwr gofal i unigolyn ac yn gwneud **UNRHYW UN** o'r canlynol:

- Yn monitro'r gwasanaeth a ddarperir i'r unigolyn ac, o ganlyniad i'r monitro hwn, yn cymryd cyfrifoldeb am newid y gweithiwr gofal am unrhyw reswm.
- Yn gofyn am safbwyntiau'r unigolyn sy'n derbyn y gwasanaeth neu'n gweithredu fel ei eiriolwr ac, o ganlyniad yn cynghori neu'n cyfeirio newidiadau i weithgarwch y gweithiwr gofal (fel newidiadau i amllder yr ymweliadau, neu'r math o ofal a ddarperir, neu'r ffordd y mae'r gweithiwr gofal yn cyflawni'r tasgau a gytunwyd).
- Yn trefnu rota o weithwyr gofal fel bod ymweliadau a gofal yn cael eu darparu pan fydd yr unigolyn eu hangen.
- Yn parhau i godi ffi ar yr unigolyn am y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y gweithiwr gofal, ac eithrio lle gwnaed trefniadau i alluogi ffi gyflwyno untro i gael ei thalu mewn rhandaliadau. Mae hyn yn wahanol i achos lle mai'r cwbl y mae'r darparwr yn ei wneud yw cyflawni swyddogaeth cyflogres i'r person sy'n cyflogi'r gweithiwr.
- Yn cytuno i drefnu cymorth wrth gefn mewn achos o salwch neu absenoldeb a allai godi – ac eithrio pan fydd yr unigolyn yn gwneud cais annibynnol i'r person i gyflwyno gweithiwr gofal arall i weithio yn ystod absenoldeb neu salwch.
- Yn adolygu cynllun gofal y defnyddiwr gwasanaeth, gan gynnwys gwneud newidiadau yn ôl yr angen, mewn ymgynghoriad â'r unigolyn.

Beth nad yw wedi ei gynnwys fel ‘swyddogaeth barhaus’?

Nid yw'n ofynnol i berson gofrestru fel gwasanaeth cymorth cartref pan fydd wedi cyflwyno unigolyn i weithiwr gofal ac wedi cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau a nodir isod:

- Cyflwyno gweithiwr gofal ychwanegol neu newydd os nad yw'r person sy'n derbyn gofal yn fodlon gyda'r gweithiwr gofal presennol ac yn gofyn am weithiwr gofal ychwanegol neu newydd. Mae'r cyflwyniad pellach hwn oherwydd bod y person sy'n derbyn gofal wedi gwneud cais am weithiwr gofal ychwanegol neu newydd ac nid yw o ganlyniad i fonitro gan y person a allai fod wedi nodi angen am newid.
- Darparu amrywiaeth o ganllawiau ymarfer (y cyfeirir atynt fel 'gweithdrefnau' fel rheol) fel gwasanaeth ychwanegol i'r person sy'n derbyn gofal. Gall y gweithiwr gofal ddilyn y gweithdrefnau hyn ar ôl cael ei gyflogi os yw'r person yn ei gyfarwyddo i wneud hynny. Nid yw'r person a gyflwynodd y gweithiwr gofal yn monitro perfformiad y gweithiwr hwnnw o ran y gweithdrefnau hyn.
- Gwneud asesiad o anghenion yr unigolyn, ond dim ond er mwyn penderfynu ar y math o weithiwr gofal sydd ei angen neu'r gweithiwr mwyaf addas. Neu gallai'r person drefnu i rywun (y cyfeirir ato fel gweithiwr achos neu asesydd fel rheol) gynnal asesiad o anghenion. Nid yw hyn yr un fath ag ysgrifennu cynllun gofal yn nodi'r gweithgareddau sydd eu hangen i ddarparu'r gofal personol sy'n ofynnol. Er enghraifft, gallai'r math hwn o asesiad benderfynu beth yr anghenion unigolyn, ond nid sut y bydd yr anghenion hyn yn cael eu diwallu. Gellir cynnal asesiad o'r fath dim ond i alluogi'r person i recriwtio a chyflwyno gweithiwr gofal sy'n gallu bod ar gael am y cyfnod sy'n ofynnol ac sy'n meddu ar y sgiliau sydd eu hangen. Nid yw'r asesiad yn barhaus.
- Codi ffi 'untro' am y cyflwyniad - er y gallai rhan o'r ffi o'r ffi lawn gael ei had-dalu gan y person os yw'r gweithiwr gofal neu'r person sy'n derbyn gofal yn terfynu'r cytundeb gyda'i gilydd. Gellir talu'r ffi mewn rhandaliadau a gallai fod yn gysylltiedig â hyd y contract neu ddim.
- Cysylltu â'r person sy'n derbyn gofal i wneud yn siŵr ei fod yn fodlon gyda'r gwasanaeth o wneud y cyflwyniad, gan gynnwys addasrwydd y gweithiwr gofal a gyflenwyd. Mae'r cyswllt hwn at ddiben sicrhau ansawdd y broses gyflwyno yn unig, nid ar gyfer monitro neu reoli neu gyfarwyddo'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y gweithiwr gofal.
- Cytuno i gyflawni swyddogaeth cyflogres ar ran y person sy'n cyflogi'r gweithiwr. Mae'n rhaid i'r swyddogaeth hon beidio â chael unrhyw

ddylanwad ar gyfeiriad a rheolaeth y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu. Dylai fod gwahaniad eglur rhwng y cyflwyniad a darpariaeth y gwasanaeth cyflogres. Yn ddelfrydol, bydd trefniant o'r fath o dan gontract ar wahân i'r un o gyflwyno, i bwysleisio natur ar wahân gweithgareddau'r person.

- Gwneud amrywiaeth o becynnau hyfforddi ar gael i weithwyr gofal eu prynu. Dylid cyfyngu hyn i sefyllfaoedd lle nodir yr angen gan y gweithiwr gofal. Nid yw hyn yn cynnwys goruchwyllo neu fonitro hyfforddiant gan y person sy'n gwneud y cyflwyniad.

Ble allaf i gael rhagor o gyngor?

Os nad ydych yn siŵr pa un a yw'r gwasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn cyd-fynd â'r diffiniad o wasanaeth cymorth cartref, efallai yr hoffech geisio cyngor cyfreithiol.

Gallwch hefyd gysylltu â'n Tîm Cofrestru cenedlaethol ar **0300 7900 126** neu yn CIWregistration@gov.wales.

Atodiad 5. Ardaloedd byrddau partneriaeth rhanbarthol o ran Gwasanaethau Cymorth Cartref

1. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gwent

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Dinas Casnewydd
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

2. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Sir Gwynedd
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

3. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Caerdydd a'r Fro

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Cyngor Dinas a Sir Caerdydd
- Cyngor Bro Morgannwg.

4. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Cyngor Dinas a Sir Abertawe
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

5. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Cwm Taf Morgannwg

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

6. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol
Gorllewin Cymru

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Ceredigion

7. Trefniadau partneriaeth o dan gyfarwyddyd Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol
Powys

- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Cyngor Sir Powys.

Atodiad 6. Holiadur Addasrwydd Unigolyn Cyfrifol

Cwestiwn 1.

Nodwch y trefniadau sydd gennych ar waith i benodi rheolwr addas ar gyfer y gwasanaeth. Beth yw eich dealltwriaeth o'ch dyletswyddau o ran hysbysu am y penodiad hwn?

Bwriad y cwestiwn hwn yw asesu sut y bydd yr unigolyn cyfrifol dynodedig yn penodi rheolwr gyda diwydrwydd dyladwy, y trefniadau sydd ar waith pe bai'r rheolwr hwnnw yn absennol o'r gwasanaeth a dealltwriaeth yr unigolyn cyfrifol o'r gwahanol ddyletswyddau sy'n berthnasol i hysbysu am y penodiad.

Cwestiwn 2.

Nodwch y systemau a'r prosesau sydd gennych ar waith i oruchwyllo rheolaeth y gwasanaeth, gan gynnwys pan fydd y rheolwr yn absennol neu ddim yn y gwasanaeth.

Bwriad y cwestiwn hwn yw asesu'r systemau sydd ar waith i'r unigolyn cyfrifol oruchwyllo rheolaeth y gwasanaeth; gan gynnwys adolygu a goruchwyllo'r rheolwr gyda phwyslais ar reolaeth, ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth. Dylai hyn gynnwys y trefniadau sydd ar waith ar gyfer pan fydd y rheolwr yn absennol neu ddim yn y gwasanaeth.

Cwestiwn 3.

Nodwch sut yr ydych yn bwriadu cyflawni eich dyletswyddau o ran ymweld â'r gwasanaeth, gan gynnwys amlder yr ymweliadau hyn.

Bydd hyn yn asesu sut y mae'r unigolyn cyfrifol yn bwriadu cynnal ymweliadau monitro â'r gwasanaeth yn bersonol gan gynnwys siarad ag unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth a'u cynrychiolwyr (os yw'n berthnasol) a'r staff.

Cwestiwn 4.

Disgrifiwch y systemau a'r prosesau sydd ar waith ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys yr adolygiad ansawdd gofal. Dylai eich ateb gynnwys sut yr ydych yn ymgysylltu ag eraill yn rhan o'r prosesau hyn.

Bwriad y cwestiwn hwn yw darganfod sut y mae'r unigolyn cyfrifol yn bwriadu monitro perfformiad y gwasanaeth o ran ei ddatganiad o ddiben, gan gynnwys y trefniadau sydd ar waith ar gyfer cael gafael ar safbwyntiau'r unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth, unrhyw gynrychiolwyr i'r unigolion hynny ar ansawdd y gofal a'r cymorth a ddarperir a sut y gellir gwella'r rhain.

Atodiad 7. Deddfwriaeth a Chanllawiau Statudol

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016:

[Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol \(Cymru\) 2016](#)

Rheoliadau a Chanllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Cartref Gofal, Gwasanaethau Cymorth Cartref, Gwasanaethau Canolfan Preswyl i Deuluoedd a Gwasanaethau Llety Diogel:

[Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig \(Cofrestru\) \(Cymru\) 2017](#)

[Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig \(Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol\) \(Cymru\) 2017](#)

[Canllawiau Statudol i ddarparwyr gwasanaethau ac unigolion cyfrifol ar fodloni rheoliadau safon gwasanaeth](#)

Rheoliadau a Chanllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Mabwysiadu:

[Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu \(Cymru\) 2019](#)

[Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig \(Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol\) \(Cymru\) 2019](#)

[Canllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu](#)

Rheoliadau a Chanllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Maethu:

[Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig \(Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol\) \(Cymru\) 2019](#)

[Canllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau maethu](#)

Rheoliadau a Chanllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Lleoli Oedolion:

[Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion \(Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol\) \(Cymru\) 2019](#)

[Canllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau lleoli oedolion](#)

Rheoliadau a Chanllawiau Statudol ar gyfer Gwasanaethau Eirioli:

[Rheoliadau Gwasanaethau Eirioli Rheoleiddiedig \(Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol\) \(Cymru\) 2019](#)

[Canllawiau statudol ar gyfer gwasanaethau eirioli](#)

Atodiad 8. Crynodeb o'r wybodaeth a'r dogfennau sy'n ofynnol yn y ffurflen gais

Gwybodaeth sy'n ofynnol yn y ffurflen gais

Gwybodaeth am y darparwr gwasanaeth	
Unigolion	Enw Cyfeiriad Dyddiad geni Manylion cyswllt Cymwysterau proffesiynol a phrofiad Hanes cyflogaeth Manylion unrhyw gyfranogiad blaenorol neu gyfredol mewn gwasanaethau rheoleiddiedig eraill yn y DU Manylion unrhyw fuddiannau busnes eraill Rhif dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu fanylion Gwasanaeth Diweddariadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. (mae'n rhaid i dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fod yn llai na 3 mis oed ar adeg cyflwyno'r cais neu mae'n rhaid bod yr ymgeisydd wedi ymuno â Gwasanaeth Diweddariadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)
Cwmnïau Cyfyngedig Partneriaethau Atebolrwydd Cyfyngedig Cwmnïau Cyfyngedig Preifat Cwmnïau Elusennol Sefydliad Corfforedig Elusennol Corff Corfforaethol Arall	Enw'r sefydliad Cyfeiriad y sefydliad Rhif cwmni / rhif elusen Manylion cyswllt y sefydliad Cysylltiadau â chwmnïau eraill Holl fanylion y swyddog sefydliadol, gan gynnwys: enw, dyddiad geni, manylion cyswllt a manylion unrhyw gyfranogiad arall mewn gwasanaethau rheoleiddiedig. Manylion unrhyw gyfranogiad blaenorol neu gyfredol mewn gwasanaethau rheoleiddiedig eraill yn y DU

	Manylion unrhyw fuddiannau busnes eraill Dynodiad unigolyn cyfrifol
Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Corff Anghorfforedig arall	Enw'r sefydliad Cyfeiriad y sefydliad Manylion cyswllt y sefydliad Cysylltiadau â chwmnïau eraill Holl fanylion y swyddog sefydliadol, gan gynnwys: enw, dyddiad geni, manylion cyswllt a manylion unrhyw gyfranogiad arall mewn gwasanaethau rheoleiddiedig. Manylion unrhyw gyfranogiad blaenorol neu gyfredol mewn gwasanaethau rheoleiddiedig eraill yn y DU Manylion unrhyw fuddiannau busnes eraill Dynodiad unigolyn cyfrifol
Partneriaethau	Enw'r bartneriaeth Cyfeiriad y bartneriaeth Manylion cyswllt y bartneriaeth Manylion partner, gan gynnwys: enw, dyddiad geni, manylion cyswllt a manylion unrhyw gyfranogiad arall mewn gwasanaethau rheoleiddiedig. Manylion unrhyw gyfranogiad blaenorol neu gyfredol mewn gwasanaethau rheoleiddiedig eraill yn y DU Manylion unrhyw fuddiannau busnes eraill Dynodiad unigolyn cyfrifol

Gwybodaeth am yr unigolyn cyfrifol	
	Enw Cyfeiriad Dyddiad geni Manylion cyswllt Cymwysterau proffesiynol a phrofiad

	Hanes cyflogaeth Manylion unrhyw gyfranogiad blaenorol neu gyfredol mewn gwasanaethau rheoleiddiedig eraill yn y DU Manylion unrhyw fuddiannau busnes eraill Rhif tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu fanylion Gwasanaeth Diweddariadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. (mae'n rhaid i dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd fod yn llai na 3 mis oed ar adeg cyflwyno'r cais neu mae'n rhaid bod yr ymgeisydd wedi ymuno â Gwasanaeth Diweddariadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd)
--	--

Gwybodaeth am y gwasanaeth	
Gwasanaethau llety (gwasanaethau cartrefi gofal, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaethau llety diogel)	Enw Cyfeiriad Manylion cyswllt Uchafswm capasiti'r gwasanaeth Ystod oedran unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth Amrywiaeth o anghenion yr ydych yn bwriadu darparu gwasanaeth ar eu cyfer Rheolwr y gwasanaeth, gan gynnwys ei enw, dyddiad geni a rhif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru
Gwasanaethau cymunedol (gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eirioli)	Enw Ardal ddaearyddol lle y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu Cyfeiriad(au) swyddfa Manylion cyswllt Ystod oedran unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth (lle y bo'n briodol)

	Amrywiaeth o anghenion yr ydych yn bwriadu darparu gwasanaeth ar eu cyfer (Ile y bo'n briodol) Nifer gyfartalog yr oriau o gymorth cartref yr ydych yn bwriadu eu darparu bob wythnos (Ile y bo'n briodol) Rheolwr y gwasanaeth, gan gynnwys ei enw, dyddiad geni a rhif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru (Ile y bo'n briodol)
--	---

Dogfennau sy'n ofynnol yn y ffurflen gais

Teitl y Ddogfen	Pwy sydd angen lanlwytho'r dogfennau hyn
Datganiad o Ddiben	Ar gyfer pob gwasanaeth
Cynllun strwythurol o'r sefydliad	Pob ymgeisydd ac eithrio Unigolion
Cynlluniau Llawr	Gwasanaethau Llety
Tystlythyr Meddygol	Mae angen i bob unigolyn cyfrifol lanlwytho hwn
Tystlythyr Banciwr	Pob ymgeisydd ac eithrio Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol
Cynllun Busnes	
Llif Arian Parod Rhagamcanol	
Y 2 gyfrif blynyddol diwethaf	Pob cwmni cyfyngedig, partneriaeth atebolrwydd cyfyngedig, cwmni elusennol, cwmni corfforedig elusennol neu unrhyw gyrrff corfforaethol eraill.

Dogfennau a ddylai fod ar gael yn yr asesiad safle

Gwnewch gopi o'r polisïau ar gael i'r arolygydd fynd gydag ef i'w hasesu ymhellach

Meddyginiaeth

Cynorthwyo unigolion i reoli eu harian

Rheoli Heintiau

Cymorth ymddygiad

Defnydd o reolaeth neu ataliaeth

Chwythu'r chwiban

Derbyniadau a chychwyn y gwasanaeth

Cwynion

Diogelu

Cymorth a datblygiad staff

Disgyblaeth staff

Os yw'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu i blant, mae'n rhaid i'r polisïau canlynol fod ar gael hefyd:

Atal bwlio

Ymdrin â honiad o fwlio

Gweithdrefn i'w dilyn pan fydd plentyn yn absennol heb ganiatâd

Gofalwch bod unrhyw bolisïau a gweithdrefnau eraill sy'n cefnogi nodau ac amcanion eich Datganiad o Ddiben ar gael hefyd

Bydd angen hefyd i ni weld y dogfennau canlynol yn ystod yr asesiad safle:

- Tystysgrif Yswiriant
- Prawf perchnogaeth neu gytundeb tenantiaeth
- Cofrestriad busnes bwyd
- Asesiad risg wedi ei gwblhau fel sy'n ofynnol o dan Orchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 (1)

Atodiad 9: Fframwaith Penderfyniad Cofrestru

A yw'r ffurflen gais yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol?

Yr hyn yr ydym yn ei ystyried	Pam	Ein disgwyliad:
Ffurflen gais	I sicrhau cydymffurfiad â'r Rheoliadau Cofrestru	Bod yr holl gwestiynau wedi eu cwblhau
		Bod y wybodaeth a ddarperir yn ddilys e.e. bod rhif y dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gywir ac y gwnaed cais am yr archwiliad cywir, h.y. ar gyfer oedolion agored i niwed neu blant.
		Bod yr holl ddogfennau gofynnol wedi cael eu darparu

A ydym yn fodlon bod yr ymgeisydd yn 'berson addas a phriodol'?

Yr hyn yr ydym yn ei ystyried	Pam	Ein disgwyliad:
Ffurflen gais	I groeswrio'r wybodaeth a ddarparwyd gyda ffynonellau tystiolaeth eraill	Bod yr ymgeisydd wedi dewis y math o ddarparwr cywir.
Thŷ'r Cwmnïau	I gadarnhau endid cyfreithiol	- Bod yr endid cyfreithiol wedi ei gofrestru fel cwmni. - Bod y cyfarwyddwyr a restrir ar y ffurflen gais wedi eu cofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau. - Bod yr holl wybodaeth arall am y cwmni a ddarparwyd yn cyfateb i'r wybodaeth a gedwir yn Nhŷ'r Cwmnïau.
Y Comisiwn Elusennau	I gadarnhau statws elusennol	- Eu bod wedi cofrestru fel elusen. - Bod yr unigolion a restrir ar y ffurflen gais wedi eu cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau fel ymddiriedolwyr. - Bod yr holl wybodaeth a gedwir gan y Comisiwn Elusennau yn cyfateb.

Cyrff rheoleiddio eraill	Asesiad o addasrwydd	• Pan fo gan y darparwr gofrestriad proffesiynol hefyd, fel gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, nad oes unrhyw broblemau addasrwydd i ymarfer. • Pan fo'r darparwr hefyd wedi ei gofrestru gyda chorff rheoleiddio arall, er enghraifft y Comisiwn Ansawdd Gofal, nad oes unrhyw ffactorau eraill a fyddai'n codi amheuan am ei addasrwydd.
Datganiadau (Ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref, mae hyn yn cynnwys yr ymgymeriad yn a.8 y Ddeddf)	Asesiad o addasrwydd	• Bod y datganiad wedi cael ei lofnodi gan unigolyn mewn swydd ddigon uchel i wneud hynny. • Bod yr ymgeisydd wedi cadarnhau addasrwydd y darparwr. • Ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref, bod yr ymgeisydd wedi cytuno i ddarparu'r gwasanaeth yn unol ag a.8 y Ddeddf.
Gwybodaeth arall a gedwir gan AGC (CaSSI)	Asesiad o addasrwydd	• Nad oes unrhyw ffactorau eraill a fyddai'n codi amheuan ynghylch addasrwydd.

A yw'r unigolyn cyfrifol dynodedig yn addas?

Yr hyn yr ydym yn ei ystyried	Pam	Ein disgwyliad:
Ffurflen gais a chynllun strwythurol y sefydliad (ac eithrio unigolion)	Asesiad o gymhwysedd	- Bod yr unigolyn dynodedig yn bodloni'r meini prawf cymhwyso – gweler Pennod y Canllawiau hyn. - Bod cynllun strwythurol y sefydliad yn dangos yn eglur swyddogaeth yr unigolyn o ran llywodraethu
Dogfen adnabod	Prawf adnabod	Y bydd yr unigolyn dynodedig yn dod â phrawf adnabod sy'n cynnwys ffotograff i'w gyfweliad addasrwydd. Trwydded yrru neu basbort yw'r ffurfiau derbyniol o brawf adnabod sy'n cynnwys ffotograff.
Tystiolaeth o gymwysterau (os ydynt wedi eu rhestru yn y ffurflen gais)	Prawf o gymwysterau	Pan fo'r unigolyn dynodedig wedi rhestru cymwysterau perthnasol ar y ffurflen gais, mae'n rhaid dod â phrawf o'r rhain i'w gyfweliad addasrwydd.
Adroddiad yr ymarferydd cyffredinol neu unigolyn cyfatebol	Asesiad o addasrwydd	Nad oes unrhyw broblemau wedi cael eu nodi o ran gallu'r unigolyn i gyflawni swyddogaeth unigolyn cyfrifol.
Tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd	Asesiad o addasrwydd	Bod yr unigolyn wedi datgan unrhyw droseddau/euogfarnau sy'n ymddangos ar y dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

		- Bod y dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gysylltiedig â'r maes. h.y. plant neu oedolion agored i niwed. - Nad oes unrhyw ffactorau eraill a fyddai'n codi amheuon ynghylch addasrwydd.
Tystlythyrau	Asesiad o addasrwydd	Nad yw'r tystlythyrau a ddarparwyd yn codi unrhyw broblemau yn ymwneud ag addasrwydd – gweler Pennod y Canllawiau hyn
Gwybodaeth gan gyrff rheoleiddio eraill	Asesiad o addasrwydd	- Pan fo gan yr unigolyn dynodedig gofrestrriad proffesiynol hefyd, fel gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, nad oes unrhyw broblemau addasrwydd i ymarfer. - Pan fo'r unigolyn dynodedig yn ymwneud â gwasanaeth(au) eraill sydd wedi eu cofrestru gyda chorff rheoleiddio eraill, er enghraifft y Comisiwn Ansawdd Gofal, nad oes unrhyw ffactorau eraill a fyddai'n codi amheuon ynghylch eu haddasrwydd.
Datganiadau	Asesiad o addasrwydd	Bod yr unigolyn dynodedig wedi datgan bod yr holl wybodaeth a ddarparwyd yn gywir.
Holiadur unigolyn cyfrifol	Asesiad o briodoldeb	- Bod yr holl gwestiynau yn gyflawn. - Bod gan yr unigolyn dynodedig ddealltwriaeth foddhaol o'i ddyletswyddau o dan y Rheoliadau ac wedi dangos ei fod yn debygol o gyflawni'r dyletswyddau hynny.

Cyfweliad unigolyn cyfrifol	Asesiad o briodoldeb	• Bod yr holl gwestiynau atodol a nodwyd yn dilyn yr holiadur unigolyn cyfrifol wedi eu hateb mewn ffordd sy'n foddhaol i ni. • Bod yr holl ddogfennau gofynnol (e.e. prawf adnabod) wedi eu cyflenwi. • Bod unrhyw broblemau addasrwydd a nodwyd wedi cael sylw.
Penodi Rheolwr	Asesiad o briodoldeb	• Bod rheolwr wedi cael ei benodi ac yn meddu ar y cofrestriad priodol gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. • Pan nad oes rheolwr wedi cael ei benodi, bod trefniadau boddhaol ar waith i reolwr gael ei benodi cyn i'r gwasanaeth ddod yn weithredol. Bydd hyn yn cael ei drafod gyda'r unigolyn yn y cyfweliad unigolyn cyfrifol.

Cydymffurfiad â gofynion y rheoliadau ac unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall?

Yr hyn yr ydym yn ei ystyried	Pam	Ein disgwyliad:
Datganiad o Ddiben	I sicrhau cydymffurfiad â'r Rheoliadau	• Bod y Datganiad o Ddiben yn cydymffurfio ag Atodlen 2 y Rheoliadau Cofrestru a'n Canllawiau ar Lunio Datganiad o Ddiben.

Polisïau a Gweithdrefnau	I sicrhau cydymffurfiad â'r Rheoliadau	• Bod yr ymgeisydd yn gwneud ar gael copi o'r polisïau a'r gweithdrefnau gorfodol sy'n ofynnol o dan y Rheoliadau yn yr arolygiad cofrestru. • Bod yr ymgeisydd yn gwneud ar gael copi o unrhyw bolisïau a gweithdrefnau ychwanegol sy'n ofynnol yn unol â'r math o wasanaeth, yn yr arolygiad cofrestru. • Bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau yn bodloni gofynion y Rheoliadau a'r Canllawiau Statudol. • Bod yr opsiwn gennym i fynd â'r copi o'r polisïau a'r gweithdrefnau i ffwrdd gyda ni a'u dychwelyd ar ddyddiad diweddarach.
Asesiad arolygu cofrestriad (Atodiad) – bydd hyn yn cynnwys cynllunio/tân/hylendid bwyd ac ati	I sicrhau cydymffurfiad â'r Rheoliadau	• Bod y safle yn adlewyrchu'r cynllun llawr a ddarparwyd yn rhan o'r cais. • Bod dyluniad, cynllun, cyfleusterau ac offer sydd ar gael yn cynorthwyo pobl i sicrhau eu canlyniadau gorau posibl ac yn hybu a chynnal eu hannibyniaeth, eu diogelwch a'u llesiant.
Tystysgrif yswiriant	I sicrhau cydymffurfiad â'r Rheoliadau	• Bod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus ar waith ar gyfer y gwasanaeth a enwir, yn gyfredol ac yn cymryd colledion o dan atebolrwydd cyhoeddus a chyflogwyr i ystyriaeth.
Prawf o berchnogaeth neu gytundeb tenantiaeth	I sicrhau cydymffurfiad â'r Rheoliadau	• Bod gan yr ymgeisydd hawl cyfreithiol i ddefnyddio'r safle at y diben o ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig.

		• Pan fo'r ymgeisydd yn rhentu neu'n lesu'r safle, bod y cytundeb yn cynnwys cyfnod rhybudd digonol, er enghraifft ein disgwyliad fyddai cyfnod rhybudd o 6 mis ar gyfer gwasanaethau cartref gofal.
Asesiad Ariannol (ac eithrio Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol)	I sicrhau cydymffurfiad â'r Rheoliadau	• Nad oes unrhyw bryderon yn ymwneud â hyfywedd ariannol yr ymgeisydd i ddarparu gwasanaeth fel y nodir yn y cais a'r Datganiad o Ddiben.

Atodiad 10. Y Broses Sylwadau



Proses Sylwadau AGC

Terminoleg

“Gwasanaeth(au) rheoleiddiedig” – mae hyn yn cyfeirio at unrhyw un o'r mathau o wasanaethau a ddiffinnir o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (y Ddeddf), fel gwasanaeth cartref gofal neu wasanaeth cymorth cartref.

“Gwasanaeth(au)” – mae hyn yn cyfeirio at wasanaeth unigol sydd wedi ei gofrestru o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 (y Mesur). Er enghraifft, cartref gofal, gwarchodwr plant neu ddarpariaeth gofal dydd.

“Hysbysiad” – yn cyfeirio at Hysbysiad o Fwriad, Hysbysiad o Gynnig neu Hysbysiad Gwella, oni nodir yn wahanol.

Fframwaith cyfreithiol

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddilyn proses benodedig yn dibynnu ar y math o gam yr ydym yn bwriadu ei gymryd.

Mae'n ofynnol i ni gyflwyno **Hysbysiad o Gynnig** o ran y camau gweithredu canlynol:

- Gwrthod cais i gofrestru
- Cymeradwyo cais i gofrestru ag amodau wedi eu gorfodi
- Gwrthod cais i amrywio amodau cofrestru (gan gynnwys ychwanegu neu ddiddymu gwasanaeth rheoleiddiedig neu wasanaeth)
- Gorfodi amodau ar gofrestriad darparwr gwasanaeth
- Amrywio'r amodau ar gofrestriad darparwr gwasanaeth (ac eithrio newid unigolyn cyfrifol)
- Ymateb i gais darparwr gwasanaeth i amrywio neu ddileu amod trwy gynnig i amrywio amodau ar wahanol delerau neu orfodi gwahanol amod.

Mae'n ofynnol i ni gyflwyno **Hysbysiad Gwella** o ran y camau gweithredu canlynol:

- Diddymu darparwr gwasanaeth
- Dileu gwasanaeth rheoleiddiedig neu wasanaeth o gofrestriad darparwr gwasanaeth
- Diddymu dynodiad unigolyn cyfrifol

*Sylwer – nid yw'r gweithdrefnau hyn yn berthnasol i gamau brys a gymerir gennym ni.

Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

Mae'n ofynnol i ni gyflwyno **Hysbysiad o Fwriad** o ran y camau gweithredu canlynol:

- Gwrthod cais i gofrestru
- Gorfodi amod newydd ar gofrestriad person
- Amrywio neu ddileu unrhyw amod a orfodwyd ar gofrestriad person
- Gwrthod cymeradwyo cais i amrywio neu ddileu unrhyw amod o'r fath
- Diddymu cofrestriad person

Hawl i wneud sylwadau

Bydd yr holl Hysbysiadau yr ydym yn eu cyflwyno yn nodi'r camau yr ydym yn bwriadu eu cymryd, y rheswm/rhesymau am gymryd y camau a therfyn amser i'r derbynnydd wneud sylwadau i ni. Gall yr amserlen ar gyfer gwneud sylwadau amrywio yn dibynnu ar yr amgylchiadau, ond mae'n rhaid iddi fod yn 28 diwrnod o leiaf o'r dyddiad y cyflwynir yr Hysbysiad.

Dylai'r rheini sy'n gwneud sylwadau i ni nodi hyn yn eglur yn eu gohebiaeth â ni. Byddwch yn ceisio egluro statws unrhyw ohebiaeth a dderbynnir mewn ymateb i Hysbysiad, pan nad yw'n eglur a yw'r unigolyn yn gwneud sylwadau.

Gellir gwneud sylwadau yn ysgrifenedig neu ar lafar. Nodir y broses ar gyfer y ddau isod.

Dylid cyflwyno sylwadau gydag unrhyw dystiolaeth gefnogol y dibynnir arni. Mae methu â gwneud hynny yn debygol o effeithio ar ein hystyried o'r sylwadau neu achosi oedi.

Amserlen

Ar ôl i sylwadau gael eu derbyn, ein nod yw ymateb trwy gyflwyno Hysbysiad o Benderfyniad/Diddymiad o fewn 28 diwrnod i'r terfyn amser ar gyfer sylwadau fynd heibio. Nid 28 diwrnod ar ôl derbyn y sylwadau yw hyn. Os na fyddwn yn gallu ymateb o fewn 28 diwrnod, byddwn yn hysbysu derbynnydd yr Hysbysiad. Mewn achosion o'r fath, byddwn yn cyflwyno Hysbysiad o Benderfyniad o fewn 56 diwrnod i'r terfyn amser ar gyfer sylwadau fynd heibio ac yn esbonio'r rhesymau am yr oedi.

Proses

Bydd Penderfynwr yn cael ei ddynodi ar ôl derbyn sylwadau. Bydd y Penderfynwr yn rhywun ar raddfa gyfatebol i'r arolygydd a lofnododd yr Hysbysiad, neu'n uwch, ac ni fydd wedi ymwneud o gwbl â'r penderfyniad i gymryd y camau arfaethedig.

Sylwadau ysgrifenedig

Gellir cyflwyno'r rhain drwy'r post neu e-bost, ynghyd ag unrhyw dystiolaeth ategol. Dylid cymryd gofal i ddiogelu data personol neu ddata personol sensitif unigolion yn y gwasanaeth.

Sylwadau llafar

Dylai'r rheini syn dymuno gwneud sylwadau llafar ein hysbysu am hyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Bydd sylwadau llafar yn cael eu clywed gan y Penderfynwr ar adeg ac mewn lleoliad sy'n gyfleus i'r ddwy ochr. Dylai hyn fod o fewn 28 diwrnod o hysbysiad gan y derbynnydd o'r Hysbysiad ei fod yn dymuno gwneud sylwadau llafar.

Gall y sawl sy'n derbyn yr hysbysiad fod yn bresennol i wneud ei wrthwynebiadau yn bersonol neu gall drefnu i'w wrthwynebiadau gael eu gwneud gan gynrychiolydd. Disgwylir yn gyffredinol y byddai'r person yn bresennol gyda'i gynrychiolydd.

Os, am unrhyw reswm, nad yw derbynnydd yr hysbysiad yn bresennol ond yn dymuno i'w gynrychiolydd fynd ati i wneud gwrthwynebiadau llafar yn ei absenoldeb, rydym angen awdurdodiad ysgrifenedig gan dderbynnydd yr hysbysiad i'r perwyl hwn.

Nid yw unigolion yn cyflwyno dystiolaeth neu'n galw tystion yn y gwrandawriad sylwadau llafar, ac nid oes unrhyw ddarpariaeth i'r arolygydd neu'r rheolwr sy'n gyfrifol am gyflwyno'r Hysbysiad fod yn bresennol.

Gwneud penderfyniad

Bydd y Penderfynwr yn ystyried yr holl dystiolaeth sy'n berthnasol i'r camau arfaethedig, gan gynnwys:

- yr Hysbysiad sy'n cynnig y cam gweithredu,
- unrhyw dystiolaeth gefnogol y dibynnir arni ar gyfer cymryd y cam,
- y sylwadau a wnaed gan dderbynnydd yr Hysbysiad, ac
- unrhyw dystiolaeth ategol a ddarparwyd gan dderbynnydd yr Hysbysiad.

Yn rhan o wneud ei benderfyniad, efallai y bydd y Penderfynwr yn gofyn am ragor o wybodaeth, gan gynnwys gwneud cais i arolygu'r gwasanaeth(au). Bydd canlyniad yr arolygiad yn cael ei ystyried ar ffurf adroddiad arolygu drafft. Oherwydd yr amserlenni y mae'n rhaid i ni gydymffurfio â nhw wrth ystyried sylwadau, nid oes digon o amser i aros i'r adroddiad gael ei gyhoeddi cyn ystyried canlyniad yr arolygiad. Pan fydd Hysbysiad yn cael ei gadarnhau gan y Penderfynwr a bod yr adroddiad drafft yn cael ei herio gan dderbynnydd yr Hysbysiad, dylid nodi hyn mewn unrhyw apêl a wneir i'r Tribiwnlys.

Efallai y bydd y Penderfynwr yn ceisio cyngor gan Wasanaethau Cyfreithiol ar faterion yn ymwneud â'r gyfraith a gweithdrefnau. Fodd bynnag, y Penderfynwr sy'n gyfrifol am wneud y penderfyniad.

Canlyniadau yn dilyn Hysbysiad o Gynnig

Ar ôl gwneud penderfyniad, mae'n rhaid i'r Penderfynwr gyflwyno Hysbysiad o Benderfyniad yn nodi ei benderfyniad a'r rheswm/rhesymau amdano. Dyma'r penderfyniadau sydd ar gael i'r Penderfynwr:

- cadarnhau'r Hysbysiad, neu
- gadarnhau'r Sylwadau

Canlyniadau yn dilyn Hysbysiad Gwella

Gall sylwadau a wneir yng nghyswllt Hysbysiad Gwelliant herio'r sail ar gyfer cyflwyno Hysbysiad a/neu ddadlau'r achos y cydymffurfiwyd â'r gofynion yn yr Hysbysiad.

Yn gyntaf, mae'n rhaid i Benderfynwr ystyried pa un a yw'n fodlon bod y sail ar gyfer cyflwyno'r Hysbysiad yn ddilys ar yr adeg y'i cyflwynwyd. Os nad yw'r Penderfynwr yn fodlon bod y sail ar gyfer cyflwyno'r Hysbysiad yn ddilys, yna mae'n rhaid tynnu'r Hysbysiad yn ôl. Bydd y derbynnydd yn cael ei hysbysu am y penderfyniad hwn yn ysgrifenedig.

Os bydd y Penderfynwr yn fodlon bod y sail ar gyfer cyflwyno'r Hysbysiad yn ddilys, yna mae'n rhaid iddo symud yn ei flaen i ystyried pa un a yw'r gofyniad/gofynion a nodwyd yn yr Hysbysiad wedi cael eu bodloni yn unol â'r amserlen benodedig.

Os bydd y Penderfynwr yn fodlon bod y gofyniad/gofynion a nodir yn yr Hysbysiad wedi cael eu bodloni, yna mae'n rhaid iddo gyflwyno Hysbysiad yn hysbysu'r derbynnydd bod y camau arfaethedig wedi cael eu diddymu.

Pan nad yw'r Penderfynwr yn fodlon bod y gofyniad/gofynion a nodir yn yr Hysbysiad wedi cael eu bodloni, mae'r canlyniadau sydd ar gael yn amrywio yn dibynnu ar y math o gamau sy'n cael eu cynnig.

Pan mai'r cam arfaethedig yw **diddymu cofrestriad darparwr gwasanaeth neu ddileu gwasanaeth rheoleiddiedig neu wasanaeth o gofrestrriad darparwr gwasanaeth** ac nad yw'r Penderfynwr yn fodlon bod y **wybodaeth** a nodir yn yr Hysbysiad wedi cael ei derbyn, mae'n **rhaid** iddo gadarnhau'r Hysbysiad.

Pan mai'r cam arfaethedig yw **diddymu cofrestriad darparwr gwasanaeth neu ddileu gwasanaeth rheoleiddiedig neu wasanaeth o gofrestrriad darparwr**

gwasanaeth ac nad yw'r Penderfynwr yn fodlon bod y **camau** a nodir yn yr Hysbysiad wedi cael eu cymryd, gall y Penderfynwr **naill ai**:

- cyflwyno Hysbysiad o Benderfyniad i gadarnhau'r cam arfaethedig, neu
- gyflwyno Hysbysiad yn hysbysu'r darparwr gwasanaeth nad yw'r cam wedi cael ei gymryd a phennu dyddiad newydd i'r cam gael ei gymryd yn ei erbyn. Ar ôl y dyddiad hwn, bydd arolygiad yn cael ei gynnal i asesu pa un a yw'r cam a nodwyd yn yr Hysbysiad gwreiddiol wedi cael ei gymryd.

Pan mai'r cam arfaethedig yw **diddymu dynodiad Unigolyn Cyfrifol** ac nad yw'r Penderfynwr yn fodlon bod y wybodaeth a nodir yn yr Hysbysiad wedi cael ei darparu neu nad yw'r camau gofynnol wedi cael eu cymryd, yna **caiff** gyflwyno Hysbysiad o Ddiddymiad. Mae'n rhaid cyflwyno'r Hysbysiad o Ddiddymiad i'r Darparwr Gwasanaeth a'r Unigolyn Cyfrifol.

Canlyniadau yn dilyn Hysbysiad o Fwriad

Ar ôl gwneud penderfyniad, mae'n rhaid i'r Penderfynwr gyflwyno Hysbysiad o Benderfyniad yn nodi ei benderfyniad a'r rheswm/rhesymau amdano. Dyma'r penderfyniadau sydd ar gael i'r Penderfynwr:

- cadarnhau'r Hysbysiad, neu
- gadarnhau'r Sylwadau

Apeliadau

Pan fo hawl i apelio i'r Tribiwnlys Iechyd a Gofal Cymdeithasol, bydd hyn yn cael ei nodi'n glur ar yr Hysbysiad o Benderfyniad.

Atodiad 11. Gwasanaethau Rheoleiddiedig o dan y Ddeddf

Gwasanaethau cartrefi gofal

(1) “*Gwasanaeth cartref gofal*” yw’r ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal mewn man yng Nghymru, i bersonau oherwydd eu hyglwyfedd neu eu hangen.

(2) Ond nid yw llety ynghyd â nyrsio neu ofal a ddarperir yn y mannau a ganlyn yn gyfystyr â gwasanaeth cartref gofal —

- (a) ysbyty;
- (b) ysgol (ond gweler is-baragraff (3));
- (c) canolfan breswyl i deuluoedd;
- (d) man sy’n darparu gwasanaeth llety diogel;
- (e) man sy’n darparu llety ar gyfer oedolyn a drefnir fel rhan o wasanaeth lleoli oedolion.

(3) Mae llety ynghyd â nyrsio neu ofal a ddarperir mewn ysgol yn gyfystyr â gwasanaeth cartref gofal os, ar yr adeg y darperir llety ar gyfer plant yn yr ysgol—

- (a) yw llety wedi ei ddarparu yn yr ysgol neu o dan drefniadau a wneir gan berchennog yr ysgol ar gyfer o leiaf un plentyn am fwy na 295 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis sy’n dod o fewn y 24 mis blaenorol, neu
- (b) bwriedir i lety o’r fath gael ei ddarparu ar gyfer o leiaf un plentyn am fwy na 295 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis sy’n dod o fewn y 24 mis dilynol.

(4) Nid yw’r ddarpariaeth o lety a gofal i blentyn gan riant, perthynas neu riant maeth yn gyfystyr â gwasanaeth cartref gofal.

(5) Yn is-baragraff (2)(b), mae i “ysgol” yr ystyr a roddir i “school” gan adran 4 o Ddeddf Addysg 1996 (p.56).

(6) Yn is-baragraff (4), ystyr “rhiant” yw person sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn (o fewn yr ystyr a roddir i “parent” a “parental responsibility” gan adran 3 o Ddeddf Plant 1989 (p.41)).

(7) At ddibenion is-baragraff (4) mae person yn rhiant maeth mewn perthynas â phlentyn os yw’r person—

- (a) yn rhiant maeth awdurdod lleol, neu
- (b) yn maethu’r plentyn yn breifat.

Gwasanaethau llety diogel “*Gwasanaeth llety diogel*” yw’r ddarpariaeth o lety at ddiben cyfyngu ar ryddid plant mewn lleoedd preswyl yng Nghymru lle y darperir gofal a chymorth i’r plant hynny.

Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd

(1) “*Gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd*” yw’r ddarpariaeth o lety ar gyfer plant a’u rhieni mewn man yng Nghymru—

- (a) lle y mae galluedd y rhieni i ymateb i anghenion y plant ac i ddiogelu eu llesiant yn cael ei fonitro neu ei asesu, a

(b) lle y rhoddir i'r rhieni unrhyw ofal a chymorth yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol.

(2) Yn is-baragraff (1), ystyr "*rhiant*" mewn perthynas â phlentyn yw unrhyw berson sy'n gofalu am y plentyn.

Gwasanaethau mabwysiadu

Mae "*gwasanaeth mabwysiadu*" yn wasanaeth a ddarperir yng Nghymru gan—

(a) cymdeithas fabwysiadu o fewn ystyr "adoption society" yn Neddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p.38) sy'n sefydliad gwirfoddol o fewn ystyr y Ddeddf honno, neu
(b) asiantaeth cymorth mabwysiadu o fewn yr ystyr a roddir i "adoption support agency" gan adran 8 o'r Ddeddf honno.

Gwasanaethau maethu

Ystyr "*gwasanaeth maethu*" yw unrhyw wasanaeth a ddarperir yng Nghymru gan berson ac eithrio awdurdod lleol sy'n gwneud y naill neu'r llall o'r canlynol neu sy'n cynnwys y naill neu'r llall o'r canlynol—

(a) lleoli plant gyda rhieni maeth awdurdod lleol, neu
(b) arfer swyddogaethau mewn cysylltiad â'r lleoliad hwnnw.

Gwasanaethau lleoli oedolion

(1) Ystyr "*gwasanaeth lleoli oedolion*" yw gwasanaeth a gynhelir (pa un ai er elw ai peidio) gan awdurdod lleol neu berson arall at ddibenion lleoli oedolion gydag unigolyn yng Nghymru o dan gytundeb gofalwr (ac mae'n cynnwys unrhyw drefniadau ar gyfer recriwtio, hyfforddi a goruchwyllo unigolion o'r fath).

(2) Yn is-baragraff (1) ystyr "*cytundeb gofalwr*" yw cytundeb ar gyfer darparu gan unigolyn lety yng nghartref yr unigolyn ynghyd â gofal a chymorth ar gyfer hyd at dri oedolyn.

Gwasanaethau eirioli

(1) Mae "*gwasanaeth eirioli*" yn wasanaeth a bennir at ddibenion y paragraff hwn gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

(2) Ni chaniateir i wasanaeth gael ei bennu'n wasanaeth eirioli oni bai bod y gofynion a ganlyn wedi eu bodloni mewn perthynas â'r gwasanaeth, ac i'r graddau y maent wedi eu bodloni felly.

(3) Y gofyniad cyntaf yw bod y gwasanaeth yn wasanaeth a gynhelir (pa un ai er elw ai peidio) at ddiben cynrychioli safbwyntiau unigolion, neu helpu unigolion i fynegi'r safbwyntiau hynny, mewn cysylltiad â materion sy'n ymwneud ag anghenion yr unigolion hynny am ofal a chymorth (gan gynnwys materion sy'n ymwneud ag asesu pa un a yw'r anghenion hynny'n bodoli).

(4) Yr ail ofyniad yw nad yw'r gwasanaeth yn cael ei gynnal gan berson sydd, yng nghwrs gweithgaredd cyfreithiol (o fewn yr ystyr a roddir i "legal activity" yn Neddf

Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 (p.29))—

- (a) yn berson awdurdodedig at ddibenion y Ddeddf honno, neu
- (b) yn Gyfreithiwr Ewropeaidd (o fewn yr ystyr a roddir i “European lawyer” yng Ngorchymyn Cymunedau Ewropeaidd (Gwasanaethau Cyfreithwyr) (O.S. 1978/1910)).

(5) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-baragraff (1) rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau sy’n briodol yn eu barn hwy.

(6) Ond nid yw’r gofyniad i ymgynghori yn gymwys i reoliadau—

- (a) sy’n diwygio rheoliadau eraill a wneir o dan yr is-baragraff hwnnw, a
- (b) nad ydynt, ym marn Gweinidogion Cymru, yn rhoi effaith i unrhyw newid sylweddol yn y ddarpariaeth a wneir gan y rheoliadau sydd i’w diwygio.

Gwasanaethau cymorth cartref

(1) “*Gwasanaeth cymorth cartref*” yw’r ddarpariaeth o ofal a chymorth i berson nad yw, oherwydd ei hyglwyfedd neu ei angen (ac eithrio hyglwyfedd neu angen nad yw ond yn codi oherwydd bod y person yn ifanc), yn gallu ei ddarparu ar ei gyfer ef ei hun ac a ddarperir yn y man yng Nghymru lle y mae’r person yn byw (gan gynnwys gwneud trefniadau ar gyfer neu ddarparu gwasanaethau mewn cysylltiad â darpariaeth o’r fath).

(2) Ond nid yw’r ddarpariaeth o ofal a chymorth yn gyfystyr â gwasanaeth cymorth cartref—

- (a) os y’i darperir gan unigolyn heb ymglymiad ymgymeriad sy’n gweithredu fel asiantaeth gyflogi neu fusnes cyflogi (o fewn yr ystyr a roddir i “employment agency” ac “employment business” gan adran 13 o Ddeddf Asiantaethau Cyflogi 1973 (p.35)), ac sy’n gweithio’n gyfan gwbl o dan gyfarwyddyd a rheolaeth y person sy’n cael y gofal a’r cymorth, neu
- (b) os y’i darperir—
 - (i) mewn man lle y darperir gwasanaeth cartref gofal, gwasanaeth llety diogel, gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd neu lety a drefnir fel rhan o wasanaeth lleoli oedolion, neu
 - (ii) mewn ysbyty.

(3) Nid yw person sy’n cyflwyno unigolion sy’n darparu gwasanaeth cymorth cartref i unigolion a all ddymuno ei gael ond nad oes ganddo unrhyw rôl barhaus yng nghyfarwyddyd neu reolaeth y gofal a’r cymorth a ddarperir i’w drin fel pe bai’n darparu gwasanaeth cymorth cartref (ni waeth pa un a yw’r cyflwyniad er elw ai peidio).

Atodiad 12. Eithriadau Cofrestru

Gwasanaethau cartrefi gofal

(1) Nid yw'r pethau a ganlyn i gael eu trin fel gwasanaeth cartref gofal, er gwaethaf paragraff 1 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (gwasanaethau rheoleiddiedig: diffiniadau, gwasanaethau cartrefi gofal)—

- a) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolyn—
 - i) mewn perthynas deuluol neu bersonol, a
 - ii) ar gyfer dim ystyriaeth fasnachol;
- b) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio neu ofal, i oedolion am gyfnod o lai nag 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis neu am nifer o gyfnodau sy'n gyfanswm o lai nag 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis;
- c) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â nyrsio, pan fo'r llety wedi ei freinio—
 - i) yng Ngweinidogion Cymru at ddibenion eu swyddogaethau o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;
 - ii) mewn ymddiriedolaeth GIG;
 - iii) mewn Bwrdd Iechyd Lleol.
- d) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety wedi ei ddarparu—
 - i) gan sefydliad o fewn y sector addysg bellach; neu
 - ii) gan brifysgol.

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys os yw nifer y personau y darperir y llety hwnnw iddynt yn fwy na degfed ran o nifer y myfyrwyr y mae'n darparu addysg a llety iddynt.

At ddibenion y paragraff hwn, mae i "sector addysg bellach" yr un ystyr â "further education sector" yn adran 91(3) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992;

- e) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety a ddarperir yn gyfystyr â gofal dydd i blant, o fewn ystyr adran 19(3) o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys os—

- i) mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, oes 28 neu ragor o gyfnodau o 24 awr y darperir mwy na 15 awr o ofal dydd ynddynt mewn perthynas ag unrhyw un plentyn (pa un a yw'r plentyn o dan 12 oed ai peidio);
 - ii) yw'r llety wedi ei ddarparu i blentyn anabl.
 - f) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety wedi ei ddarparu i blant 16 oed a throsodd a dim ond at ddibenion galluogi'r plant i ymgymryd â hyfforddiant neu brentisiaeth.
- Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys os yw'r llety wedi ei ddarparu i blentyn anabl;
- g) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety wedi ei ddarparu i blant mewn hostel fechnïaeth a gymeradwyir neu hostel brawf a gymeradwyir;
 - h) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety yn sefydliad i droseddwyir ifanc a ddarperir o dan neu yn rhinwedd adran 43(1) o Ddeddf Carchardai 1952;

- i) y ddarpariaeth o lety, ynghyd â gofal, pan fo'r llety wedi ei ddarparu i blant oherwydd eu hyglwyfedd neu eu hangen at ddibenion—
 - i) gwyliau;
 - ii) gweithgaredd hamdden, adloniant, chwaraeon, diwylliannol neu addysgol;
 Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys—
 - i) mewn unrhyw achos pan fo'r llety wedi ei ddarparu i blentyn anabl;
 - ii) os yw'r llety wedi ei ddarparu i unrhyw un plentyn am fwy nag 28 o ddiwrnodau mewn unrhyw gyfnod o 12 mis, os nad yw'r llety ond wedi ei ddarparu i blant dros 16 oed.

(2) At ddibenion paragraff (1)(e), (f) ac (i) o'r rheoliad hwn, mae plentyn yn "anabl" os oes gan y plentyn anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010.

Gwasanaethau cymorth cartref

(1) Nid yw'r pethau a ganlyn i gael eu trin fel gwasanaeth cymorth cartref, er gwaethaf paragraff 8 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (gwasanaethau rheoleiddiedig: diffiniadau, gwasanaethau cymorth cartref)—

- a) y ddarpariaeth o gymorth yn unig;
- b) y ddarpariaeth o ofal a chymorth i bedwar neu lai o unigolion ar unrhyw un adeg;
- c) y ddarpariaeth o ofal a chymorth ar gyfer oedolyn—
 - i) mewn perthynas deuluol neu bersonol, a
 - ii) ar gyfer dim ystyriaeth fasnachol;
- d) y ddarpariaeth o ofal a chymorth ar gyfer plentyn gan riant, perthynas neu riant maeth;
- e) y ddarpariaeth o ofal a chymorth gan ofalwr pan fo gofal a chymorth o'r fath yn cael ei ddarparu heb ymglymiad ymggymeriad sy'n gweithredu fel asiantaeth gyflogi neu fusnes cyflogi (o fewn yr ystyr a roddir i'r ymadroddion "employment agency" neu "employment business" gan adran 13 o Ddeddf Asiantaethau Cyflogi 1973(4)), a phan fo'r gofalwr yn gweithio'n gyfan gwbl o dan gyfarwyddyd a rheolaeth trydydd parti cysylltiedig;
- f) trefniadau ar gyfer cyflenwi gofalwyr i ddarparwr gwasanaeth gan ymggymeriad sy'n gweithredu fel asiantaeth gyflogi neu fusnes cyflogi at ddiben darparu gwasanaeth rheoleiddiedig gan y darparwr gwasanaeth;
- g) y ddarpariaeth o ofal a chymorth pan fo'r gofal a'r cymorth wedi eu darparu gan berson sy'n rheoli carchar neu sefydliad carcharu tebyg arall.

(2) Ym mharagraff (1)(e) ac (f), ystyr "gofalwr" yw unigolyn sy'n darparu gofal i berson y cyfeirir ato ym mharagraff 8(1) o Atodlen 1 i'r Ddeddf.

(3) Ym mharagraff (1)(e), ystyr "trydydd parti cysylltiedig" yw—

- a) unigolyn a chanddo gyfrifoldeb rhiant (o fewn ystyr "parental responsibility" yn adran 3 o Ddeddf Plant 1989(5)) ar gyfer plentyn y mae gofal a chymorth i gael eu darparu iddo;

- b) unigolyn a chanddo atwrneiaeth neu awdurdod cyfreithlon arall i wneud trefniadau ar ran yr unigolyn y mae gofal a chymorth i gael eu darparu iddo;
- c) grŵp o unigolion a grybwyllir naill ai yn is-baragraff (a) neu yn is-baragraff (b) sy'n gwneud trefniadau ar ran dim mwy na phedwar unigolyn a enwir y mae gofal a chymorth i gael eu darparu iddynt;
- d) ymddiriedolaeth a sefydlir at ddiben darparu gwasanaethu i ddiwallu anghenion gofal a chymorth unigolyn a enwir.

Gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd

(1) Nid yw'r pethau a ganlyn i gael eu trin fel gwasanaeth canolfan breswyl i deuluoedd, er gwaethaf paragraff 3 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (gwasanaethau rheoleiddiedig: diffiniadau, gwasanaethau canolfannau preswyl i deuluoedd)—

- a) y ddarpariaeth o lety ar gyfer plant a'u rhieni pan fo'r llety wedi ei ddarparu mewn ysbyty⁽¹⁾;
- b) y ddarpariaeth o lety ar gyfer plant a'u rhieni pan fo'r llety wedi ei ddarparu mewn hostel neu mewn lloches rhag trais domestig;
- c) mewn unrhyw achos arall, y ddarpariaeth o lety ar gyfer plant a'u rhieni sydd â'r prif ddiben o ddarparu llety ynghyd â gwasanaethau a chyfleusterau eraill i unigolion sy'n oedolion ac mae'r ffaith y gall yr unigolion hynny fod yn rhieni, neu y gall eu plant fod gyda hwy, yn ail i'r prif ddiben o ddarparu'r llety.

Gwasanaethau Mabwysiadu

(1) Ni ddylid trin y gwasanaethau canlynol fel gwasanaeth mabwysiadu, er gwaethaf paragraff 4 o Atodlen 1 i'r Ddeddf (gwasanaethau rheoleiddiedig: diffiniadau, gwasanaeth mabwysiadu)—

- (a) gwasanaeth a ddarperir mewn perthynas â mabwysiadu gan berson, yn ystod gweithgarwch cyfreithiol (yn unol ag ystyr Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007), sydd—
 - (i) yn berson a awdurdodwyd at ddibenion y Ddeddf honno, neu
 - (ii) yn gyfreithiwr Ewropeaidd (yn unol ag ystyr Gorchymyn Cymunedau Ewrop (Gwasanaethau Cyfreithwyr) 1978);
- (b) gwasanaethau a ddarperir er mwyn galluogi grwpiau o blant mabwysiadol, rhieni mabwysiadol a rhieni biolegol neu gyn-warcheidwaid plentyn mabwysiadol i drafod materion sy'n ymwneud â mabwysiadu;
- (c) gofal seibiant a ddarperir i blentyn mabwysiadol neu riant mabwysiadol gan wasanaeth gofal cartref neu wasanaeth cymorth cartref y mae person wedi'i gofrestru mewn perthynas ag ef o dan bennod 2 o Ran 1 y Ddeddf;
- (d) gofal seibiant a ddarperir mewn perthynas â phlentyn mabwysiadol sy'n cynnwys gwarchod plant neu ofal dydd yn unol â'r ystyr yn Rhan 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 ac mae person wedi'i gofrestru mewn perthynas ag ef ar gyfer gwarchod plant neu ofal dydd o dan y Rhan honno o'r Mesur hwnnw;

⁽¹⁾ Mae "ysbyty" wedi ei ddiffinio ym mharagraff 9 o Atodlen 1 i'r Ddeddf ac yn cynnwys clinig annibynnol.

(e) gwasanaethau cymorth mabwysiadu a ddarperir gan berson sy'n darparu'r gwasanaethau hynny—

- (i) heblaw mewn partneriaeth ag eraill
- (ii) o dan gontract am wasanaethau â—
 - (aa) gwasanaeth mabwysiadu rheoleiddiedig, neu
 - (bb) gwasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol.

(2) Ym mharagraff (1)(e), nid yw person yn cynnwys y lluosog ac nid yw'n gorff corfforaethol.

Gwasanaethau Eirioli

Ond nid yw gwasanaeth y cyfeirir ato ym mharagraff (1) yn wasanaeth eirioli—

(a) os caiff ei ddarparu gan berson yn ystod gweithgarwch cyfreithiol yn unol ag ystyr Deddf Gwasanaethau Cyfreithiol 2007 gan berson sydd—

- (i) yn berson a awdurdodwyd at ddibenion y Ddeddf honno, neu
- (ii) yn gyfreithiwr Ewropeaidd (yn unol ag ystyr Gorchymyn Cymunedau Ewrop (Gwasanaethau Cyfreithwyr) 1978);

(b) os caiff y cymorth ei ddarparu gan swyddog achosion teuluol Cymru wrth gyflawni swyddogaethau mewn perthynas ag achos teuluol;

(c) os caiff y cymorth ei ddarparu gan Gomisiynydd Plant Cymru neu gan aelod o staff Comisiynydd Plant Cymru;

(d) os caiff ei ddarparu gan berson nad yw wedi darparu ac nad yw'n bwriadu darparu gwasanaeth eirioli i fwy na 4 person mewn unrhyw gyfnod o 12 mis;

(d) i'r graddau y caiff ei ddarparu gan berthynas neu ffrind i'r person y gwneir sylwadau ar ei ran, neu y bwriedir gwneud sylwadau ar ei ran.

(3) Yn y rheoliad hwn—

(a) mae ystyron wedi'u priodoli i'r geiriau a'r cymalau canlynol—

- (i) ystyr "perthynas" yw rhiant neu berson arall â chyfrifoldeb rhiant, brawd, chwaer, ewythr neu fodryb (boed hynny drwy briodas neu bartneriaeth sifil), nain neu daid, llys-riant, rhiant maeth neu ddarpar fabwysiadwr y caiff y plentyn ei leoli ag ef neu hi;
- (ii) mae i "achos teuluol" yr un ystyr ag a roddir yn adran 12 o Ddeddf Cyfiawnder Trosedd a Gwasanaethau Llysoedd 2000;
- (iii) mae i "swyddog achosion teuluol Cymru" yr un ystyr ag a roddir yn adran 35(4) o Ddeddf Plant 2004;
- (iv) mae "grŵp o frodyr a chwiorydd" yn cynnwys brodyr a chwiorydd a hanner brodyr a hanner chwiorydd;

(b) wrth benderfynu a yw person wedi darparu neu a yw'n bwriadu darparu gwasanaeth eirioli i fwy na 4 person at ddibenion paragraff (2)(d), caiff eiriolaeth a ddarperir i grŵp o frodyr a chwiorydd ei chyfrif fel eiriolaeth a ddarperir i un person.

Atodiad 13. Cymhwysedd unigolyn cyfrifol (a.21 y Ddeddf)

- (1) Yn y Rhan hon, ystyr “*unigolyn cyfrifol*” yw unigolyn—
- (a) sy’n gymwys i fod yn unigolyn cyfrifol o dan isadran (2),
 - (b) y mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ei fod yn berson addas a phriodol i fod yn unigolyn cyfrifol (gweler adran 9), ac
 - (c) sydd wedi ei ddynodi gan ddarparwr gwasanaeth mewn cysylltiad â man y mae’r darparwr yn darparu gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef ac a bennir felly yng nghofrestriad y darparwr gwasanaeth.
- (2) I fod yn gymwys i fod yn unigolyn cyfrifol rhaid i’r unigolyn—
- (a) pan fo’r darparwr gwasanaeth yn unigolyn, fod y darparwr gwasanaeth;
 - (b) pan fo’r darparwr gwasanaeth yn bartneriaeth, fod yn un o’r partneriaid;
 - (c) pan fo’r darparwr gwasanaeth yn gorff corfforaethol ac eithrio awdurdod lleol—
 - (i) bod yn gyfarwyddwr neu’n swyddog tebyg yn y corff,
 - (ii) yn achos cwmni cyfyngedig cyhoeddus, fod yn gyfarwyddwr neu’n ysgrifennydd yn y cwmni, neu
 - (iii) yn achos corff corfforaethol y mae ei faterion yn cael eu rheoli gan ei aelodau, fod yn aelod o’r corff;
 - (d) pan fo’r darparwr gwasanaeth yn gorff anghorfforedig, fod yn aelod o’r corff;
 - (e) pan fo’r darparwr gwasanaeth yn awdurdod lleol, fod yn swyddog yn yr awdurdod lleol a ddynodir gan gyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod.
- (3) At ddibenion isadran (2)(e), dim ond os yw cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yn meddwl bod gan swyddog y profiad a’r arbenigedd angenrheidiol i fod yn unigolyn cyfrifol y caiff ddynodi’r swyddog hwnnw.
- (4) Caniateir i’r un unigolyn cyfrifol gael ei ddynodi mewn cysylltiad â mwy nag un man y darperir gwasanaeth rheoleiddiedig ynddo, ohono neu mewn perthynas ag ef.

Atodiad 14. Prawf person addas a phriodol (a.9 y Ddeddf)

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i unrhyw benderfyniad gan Weinidogion Cymru o ran a yw-

- (a) darparwr gwasanaeth,
- (b) person sy'n gwneud cais i fod yn ddarparwr gwasanaeth,
- (c) unigolyn cyfrifol, neu
- (d) person sydd i'w ddynodi'n unigolyn cyfrifol, yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth neu, yn ôl y digwydd, unigolyn cyfrifol.

(2) Wrth wneud penderfyniad o'r fath rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r holl faterion sy'n briodol yn eu barn hwy.

(3) Yn benodol, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw dystiolaeth sy'n dod o fewn isadrannau (4) i (8).

(4) Mae tystiolaeth yn dod o fewn yr isadran hon os yw'n dangos bod y person wedi-

- (a) cyflawni—
 - (i) unrhyw drosedd sy'n ymwneud â thwyll neu anonestrwydd arall, trais, arfau tanio neu gyffuriau neu unrhyw drosedd sydd wedi ei rhestru yn Atodlen 3 i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 (p.42) (troseddau sydd â gofynion hysbysu),
 - (ii) trosedd o dan y Ddeddf hon neu reoliadau a wneir o dan y Ddeddf,
 - (iii) trosedd o dan Ran 2 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (p.14) neu reoliadau a wneir o dan y Ddeddf, neu
 - (iv) unrhyw drosedd arall sy'n berthnasol ym marn Gweinidogion Cymru, neu
- (b) aflonyddu ar rywun, neu wahaniaethu'n anghyfreithlon, ar sail unrhyw nodwedd sy'n nodwedd warchodedig o dan adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (p.15), neu wedi erlid person arall yn groes i'r Ddeddf honno, wrth gynnal unrhyw fusnes neu mewn cysylltiad â hynny.

(5) Mae tystiolaeth o fewn yr isadran hon-

- (a) os yw'n dangos bod unrhyw berson arall sy'n gysylltiedig â'r person neu a oedd yn gysylltiedig â'r person gynt (pa un ai ar sail bersonol, ar sail gwaith neu ar sail arall) wedi gwneud unrhyw un neu ragor o'r pethau a nodir yn isadran (4), a
- (b) os ymddengys i Weinidogion Cymru fod y dystiolaeth yn berthnasol wrth ystyried a yw'r person yn berson addas a phriodol i fod yn ddarparwr gwasanaeth neu, yn ôl y digwydd, yn unigolyn cyfrifol.

(6) Mae tystiolaeth o fewn yr isadran hon os yw'n dangos bod y person wedi bod yn gyfrifol am gamymddwyn neu gamreoli, neu wedi cyfrannu ato neu wedi ei hwyluso, wrth ddarparu—

- (a) gwasanaeth rheoleiddiedig neu wasanaeth a ddarperir y tu allan i Gymru a fyddai'n wasanaeth rheoleiddiedig pe bai'n cael ei ddarparu yng Nghymru,

(b) gwasanaeth a fyddai wedi dod o fewn paragraff (a) pe bai'r system reoleiddiol sydd wedi ei sefydlu gan y Rhan hon wedi bod yn weithredol ar yr adeg pan oedd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu.

(7) Wrth roi sylw i dystiolaeth o fewn isadran (6), rhaid i Weinidogion Cymru, ymhlith pethau eraill, ystyried—

(a) pa mor ddifrifol yw'r camymddwyn neu'r camreoli ac am ba hyd y bu'n digwydd,

(b) niwed a achoswyd i unrhyw berson, neu unrhyw dystiolaeth o fwriad i achosi niwed,

(c) unrhyw fantais ariannol a enillwyd gan y person,

(d) unrhyw gamau a gymerwyd gan y person i unioni'r camymddwyn neu'r camreoli.

(8) Mae dystiolaeth o fewn yr isadran hon os yw'n dangos bod y person wedi methu'n flaenorol â chydymffurfio—

(a) ag ymgymeriad a roddir o dan adran 7(1)(a)(ii) neu 11(3)(a)(ii),

(b) ag amod a osodir o dan y Rhan hon, neu

(c) â gofyniad a osodir gan reoliadau o dan adran 27(1) neu 28(1).

(9) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio'r adran hon i amrywio'r dystiolaeth y mae rhaid iddynt roi sylw iddi.

Atodiad 15. Canllaw ar gyfer actifadu eich Cyfrif AGC Ar-lein

Dechreuwch drwy fewngofnodi i'ch cyfrif AGC Ar-lein. Pan fyddwch wedi mewngofnodi, cliciwch ar eich enw defnyddiwr (y gornel dde ar frig y dudalen)



AGC Ar-lein

Dewiswch 'Actifadu' o'r gwymplen.



Byddwch wedi cael PIN Actifadu naill ai yn ystod y broses gofrestru neu unwaith y cofrestrwyd y gwasanaeth.

Rhowch eich rhif 'PIN Actifadu' a'ch 'Dyddiad Geni' a phwyswch 'Actifadu'.

Ar ôl actifadu'n llwyddiannus bydd neges yn cadarnhau bod eich cyfrif wedi'i actifadu'n ymddangos.



Os cewch unrhyw broblemau'n actifadu'ch cyfrif neu os nad ydych wedi cael PIN Actifadu, cysylltwch â'n Tîm Cofrestru ar **0300 7900 126**.

Atodiad 16. Gwybodaeth a dogfennau sydd eu hangen ar gyfer ceisiadau amrywio

1. Ychwanegu gwasanaeth

Gwybodaeth am y gwasanaeth	
Gwasanaethau seiliedig ar lety (gwasanaethau cartref gofal, canolfannau preswyl i deuluoedd a gwasanaeth llety diogel)	Enw Cyfeiriad Manylion cyswllt Uchafswm nifer y lleoedd yn y gwasanaeth Ystod oedran yr unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth Yr amrywiaeth o anghenion rydych yn bwriadu eu diwallu Rheolwr y gwasanaeth, gan gynnwys ei enw, ei ddyddiad geni a'i rif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru Datganiad o Ddiben
Gwasanaethau cymunedol (gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu, gwasanaethau lleoli oedolion a gwasanaethau eirioli)	Enw Ardal ddaearyddol lle y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu Cyfeiriad(au) swyddfa Manylion cyswllt Ystod oedran unigolion sy'n defnyddio'r gwasanaeth (lle y bo'n briodol) Amrywiaeth o anghenion yr ydych yn bwriadu darparu gwasanaeth ar eu cyfer (lle y bo'n briodol) Nifer gyfartalog yr oriau o gymorth cartref yr ydych yn bwriadu eu darparu bob wythnos (lle y bo'n briodol) Rheolwr y gwasanaeth, gan gynnwys ei enw, dyddiad geni a rhif cofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru (lle y bo'n briodol)

Gwybodaeth am yr Unigolyn Cyfrifol	Gall lefel y wybodaeth sydd ei hangen amrywio yn dibynnu ar b'un a yw'r unigolyn eisoes yn Unigolyn Cyfrifol ar gyfer gwasanaeth arall o fewn cofrestriad y Darparwr Gwasanaeth.
Unigolyn	Enw Cyfeiriad Dyddiad geni Manylion cyswllt Profiad a chymwysterau proffesiynol Hanes cyflogaeth Manylion unrhyw achos blaenorol neu gyfredol o fod ynghlwm wrth wasanaethau rheoleiddiedig eraill yn y DU Manylion unrhyw fuddiannau busnes eraill Rhif tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd/y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth

2. Dynodi Unigolyn Cyfrifol newydd

Gwybodaeth am yr Unigolyn Cyfrifol	Gall lefel y wybodaeth sydd ei hangen amrywio yn dibynnu ar b'un a yw'r unigolyn eisoes yn Unigolyn Cyfrifol ar gyfer gwasanaeth arall o fewn cofrestriad y Darparwr Gwasanaeth.
Unigolyn	Enw Cyfeiriad Dyddiad geni Manylion cyswllt Profiad a chymwysterau proffesiynol Hanes cyflogaeth Manylion unrhyw achos blaenorol neu gyfredol o fod ynghlwm wrth

	wasanaethau rheoleiddiedig eraill yn y DU Manylion unrhyw fuddiannau busnes eraill Rhif tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd/y wybodaeth ddiweddaraf am y gwasanaeth
--	--

3. Dileu Unigolyn Cyfrifol gwasanaeth

Cwestiwn	Gorfodol/Dewisol
O ba ddyddiad na fydd yr unigolyn yn ymgymryd â'r rôl hon mwyach?	Gorfodol
Rheswm dros amrywio	Gorfodol
Unrhyw wybodaeth arall	Dewisol
A yw'r unigolyn hwn yn gadael y sefydliad?	Gorfodol

4. Amrywio uchafswm nifer y bobl y gellir eu lletya

Uchafswm nifer presennol y bobl y gellir eu lletya yw
Uchafswm nifer arfaethedig y bobl rydych yn bwriadu eu lletya yw
Rhowch grynodedb o'r rhesymau pam rydych yn gofyn am gael newid nifer y bobl y gellir eu lletya
Y dyddiad arfaethedig pan fydd y newid hwn yn weithredol
Lanlwythwch gopi o'ch Datganiad o Ddiben diwygiedig
Lanlwythwch unrhyw ddogfennau ychwanegol sy'n ategu eich cais
Unrhyw Wybodaeth arall

5. Dileu gwasanaeth o gofrestrriad Darparwr Gwasanaeth

A yw'r gwasanaeth yn cael ei drosglwyddo i ddarparwr newydd?
Beth yw enw'r sefydliad / unigolyn prynu?

Beth yw'r trefniadau a'r amserlenni cyfredol sydd ar waith i gwblhau'r broses o drosglwyddo'r gwasanaeth i ddarparwr newydd?
O ba ddyddiad y caiff y gwasanaeth ei ddileu o gofrestrriad y darparwr?
Rheswm dros Amrywio
Manylion Amrywio
Rhowch grynodedb o sut y byddwch yn cydymffurfio â Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 hyd at y dyddiad cau.
Manylion y Rhybudd a Roddir
A yw'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi cael gwybod am eich bwriad i ddileu'r gwasanaeth hwn o'ch cofrestrriad?
Y dyddiad y rhoddwyd gwybod i ddefnyddwyr y gwasanaeth
*Rhowch grynodedb o'r rhesymau pam nad yw'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi cael gwybod am hyn
A yw teuluoedd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi cael gwybod am eich bwriad i ddileu'r gwasanaeth hwn o'ch cofrestrriad?
Y dyddiad y rhoddwyd gwybod i deuluoedd
*Rhowch grynodedb o'r rhesymau pam nad yw teuluoedd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi cael gwybod am hyn
A yw comisiynwyr wedi cael gwybod am eich bwriad i ddileu'r gwasanaeth hwn o'ch cofrestrriad?
Y dyddiad y rhoddwyd gwybod i gomisiynwyr
*Rhowch grynodedb o'r rhesymau pam nad yw comisiynwyr wedi cael gwybod am hyn
Unrhyw Wybodaeth arall
* Dim ond os nad yw'r partïon perthnasol wedi cael gwybod y dangosir y cwestiynau hyn.

Atodiad 17. Cyfweld ag Unigolion Cyfrifol

Pryd y bydd angen cynnal Cyfweliad ag Unigolion Cyfrifol:

- Ar gyfer pob ymgeisydd newydd sy'n ymgeisio am y tro cyntaf,
- Ar gyfer pob cais amrywio i ychwanegu Unigolyn Cyfrifol newydd ar gyfer gwasanaeth(au) presennol,
- Ar gyfer pob cais amrywio i Ychwanegu Gwasanaeth ar gyfer darparwyr gwasanaeth lle ceir pryderon cydymffurfio neu oruchwylio ar hyn o bryd mewn perthynas â'r gwasanaeth(au),
- Ym mhob achos lle mae'r Unigolyn Cyfrifol newydd enwebedig yn swyddog tebyg yn y sefydliad,
- Ym mhob achos lle ceir unrhyw bryderon ynglŷn â gallu'r Unigolyn Cyfrifol i gyflawni'r rôl mewn perthynas â nifer cynyddol o wasanaethau,
- Mewn unrhyw achos lle mae'r Unigolyn Cyfrifol enwebedig wedi cael gwiriad cadarnhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd nad yw wedi cael ei drafod yn flaenorol ag AGC.

Lle nad oes yr un o'r uchod yn gymwys, efallai y byddwn yn ystyried nad oes angen cynnal Cyfweliad ag Unigolyn Cyfrifol cyhyd â bod;

- AGC wedi cyfweld â'r person a enwebwyd yn Unigolyn Cyfrifol ac wedi ei gymeradwyo yn ystod y 12 mis blaenorol mewn perthynas â'r darparwr gwasanaeth perthnasol a gymeradwywyd.

Atodiad 18. Matrics penderfynu ar ymweliad cofrestru safle

Gwasanaethau seiliedig ar lety

Y math o gais	A oes angen cynnal ymweliad?	Ffactorau i'w hystyried lle y credir bod ymweliad yn llai tebygol
Gwasanaeth heb ei gofrestru yn flaenorol	OES	
Cynyddu uchafswm y niferoedd • Estyniad i'r adeilad • Gwaith addasu neu adnewyddu • Os cafodd yr ystafelloedd ychwanegol eu gweld yn flaenorol a'u hystyried yn addas ond nad oeddent yn cael eu defnyddio.	OES OES LLAI TEBYGOL	Cynlluniau llawr, mesuriadau, yr adroddiad arolygu diweddaraf, trafodaeth â'r arolygydd ardal. Gwybodaeth ysgrifenedig am y cyfleusterau, os oes ymholiadau.
Darparwr Gwasanaeth Cofrestredig sy'n cael gwasanaeth cofrestredig: • Cynhaliwyd arolygiad yn ystod y 12 mis cyn cyflwyno'r cais ac ni chafwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio na phryderon mewn perthynas â'r amgylchedd. Mae'r holl ddogfennaeth yn foddhaol • Materion diffyg cydymffurfio o ran yr amgylchedd a/neu bryderon mewn perthynas â'r amgylchedd a/neu'r darparwr presennol yn cadarnhau bod newidiadau wedi cael eu gwneud ers y cofrestriad cychwynnol a/neu mae dogfennaeth yn	LLAI TEBYGOL MWY TEBYGOL	Adroddiad arolygu diweddaraf. Trafodaeth â'r arolygydd ardal. Hanes gwasanaethau ychwanegol y gallai'r darparwr fod yn eu rhedeg. Cadarnhad gan y darparwr presennol o unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd ers y cofrestriad gwreiddiol. Adborth gan yr arolygydd ardal mewn perthynas â: materion cydymffurfio yn ymwneud â'r amgylchedd, camau a gymerwyd, canlyniadau pryderon a godwyd am yr amgylchedd, dyddiad yr arolygiad nesaf.

achosi pryderon a/neu bryderon ar ôl trafodaethau â'r Unigolyn Cyfrifol Cynnydd mewn niferoedd o gofrestriad y Darparwr Gwasanaeth presennol	OES	
Gwasanaeth cofrestredig yn newid Darparwr Gwasanaeth	LLAI TEBYGOL	Trafodaeth â'r arolygydd ardal, hanes cydymffurfiaeth. Cadarnhad gan y darparwr presennol o unrhyw newidiadau a allai fod wedi digwydd ers y cofrestriad gwreiddiol.

Gwasanaethau nad ydynt yn seiliedig ar lety (DSS, Mabwysiadu, Maethu, Lleoliadau Oedolion ac Eiriolaeth)

Gwasanaeth heb ei gofrestru yn flaenorol - Uned fasnachol yw'r safle - Nid uned fasnachol yw'r safle – cyfeiriad personol/cartref gofal ac ati	LLAI TEBYGOL OES	Cytundeb prydles. Rhestr wirio wedi'i chwblhau gan y darparwr yn cadarnhau gwybodaeth am addasrwydd y safle
Darparwr Gwasanaeth yn ychwanegu gwasanaeth anghofrestredig Uned fasnachol yw'r safle	LLAI TEBYGOL	Cytundeb prydles. Rhestr wirio wedi'i chwblhau gan y darparwr yn cadarnhau gwybodaeth am addasrwydd y safle Trafodaeth â'r arolygydd ardal.

Nid uned fasnachol yw'r safle – cyfeiriad personol/cartref gofal ac ati	OES	
Gwasanaeth cofrestredig yn newid Darparwr Gwasanaeth	LLAI TEBYGOL	Yr adroddiad arolygu diwethaf. Trafodaeth â'r arolygydd ardal. Hanes gwasanaethau ychwanegol y gallai'r darparwr fod yn eu rhedeg.

Ym mhob achos, dim ond rhan o'r penderfyniad ynghylch a gaiff ymweliad ei gynnal fydd hyn. Caiff pob cais ei ystyried ar ei sail ei hun a chaiff yr holl wybodaeth sydd ar gael ei hystyried.

Atodiad 19. Rhestr termau

Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Disclosure and Barring Service (DBS)

Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn helpu cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel ac atal pobl anaddas rhag gweithio gyda grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant. Bydd archwiliad safonol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn dangos unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu, rhybuddion a cherydd, yn ogystal ag euogfarnau wedi eu disbyddu a heb eu disbyddu. Gall hefyd chwilio drwy'r 'rhestrau waharddedig' plant ac oedolion agored i niwed i ddarganfod a yw'r ymgeisydd wedi ei wahardd rhag gweithio gyda'r grwpiau hyn. Gall heddlu lleol ychwanegu unrhyw wybodaeth berthnasol am yr ymgeisydd.

Gorfodi

Enforcement

Amrywiaeth o gamau a gymerir gan AGC yn erbyn darparwr gwasanaeth nad yw'n cydymffurfio â gofynion rheoleiddio neu amodau ei gofrestrriad. Gall hyn amrywio o gyflwyno hysbysiadau o ddiffyg cydymffurfio i ddiddymu cofrestrriad darparwr gwasanaeth.

Person addas a phriodol

Fit and proper person

Rhywun y mae Gweinidogion Cymru yn ei ystyried yn gymwys ac yn addas ar gyfer swyddogaeth darparwr gwasanaeth neu unigolyn cyfrifol. Gweler Atodiad 5 ar gyfer y prawf llawn.

Arolygu

Inspection

Pan fydd yr arolygiaeth yn archwilio ac yn asesu safon y gofal a'r cymorth a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth wrth ddarparu gwasanaeth rheoleiddiedig yw hyn.

Endid cyfreithiol

Legal entity

Mae hyn yn golygu unigolyn, cwmni, neu sefydliad sydd â hawliau a rhwymedigaethau cyfreithiol.

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (“the Act”)

Deddfwriaeth sy’n cyflwyno system newydd o reoleiddio ac arolygu gwasanaethau a fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2018 ac yn cael ei chyflwyno a’i gweithredu’n llawn erbyn mis Ebrill 2019

Rheoliadau

Regulations

Yn nodi’r gofynion y mae’n rhaid i ddarparwyr ac unigolion cyfrifol eu bodloni er mwyn cofrestru a gweithredu gwasanaeth.

Gwasanaeth(au) rheoleiddiedig

Regulated service(s)

Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw un o’r mathau o wasanaethau a ddiffinnir o dan y Ddeddf, fel gwasanaeth cartref gofal neu wasanaeth cymorth cartref.

Unigolyn cyfrifol

Responsible individual (RI)

Unigolyn a neilltuir gan ddarparwr gwasanaeth i weithredu ar ei ran yng nghyswllt gwasanaeth(au) cofrestredig.

Gwasanaeth

Service

Mae hyn yn cyfeirio at wasanaeth unigol. O ran cartrefi gofal, cartref gofal fyddai hwn, sy’n cael ei redeg mewn lleoliad penodol. O ran gwasanaethau cymorth cartref, gwasanaeth unigol fyddai hwn, sy’n cael ei redeg mewn man penodol.

Gofal Cymdeithasol Cymru

Social Care Wales

Gofal Cymdeithasol Cymru yw rheoleiddiwr y gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae’n gosod safonau ar gyfer y gweithlu gofal cymdeithasol ac yn ei ddatblygu; yn ei wneud yn atebol am ei waith ac yn darparu gwybodaeth am ofal a chymorth i’r cyhoedd, y gweithlu a sefydliadau eraill.

Datganiad o ddiben

Statement of Purpose

Y Datganiad o Ddiben yw'r ddogfen allweddol sy'n nodi eich gweledigaethau ar gyfer y gwasanaeth a sut yr ydych yn bwriadu diwallu anghenion y bobl sy'n ei ddefnyddio. Os hoffech ragor o wybodaeth am yr hyn y mae'n rhaid i Ddatganiad o Ddiben ei gynnwys, gweler ein canllawiau ar lunio Datganiad o Ddiben [gweler ein canllawiau ar lunio Datganiad o Ddiben](#)

Y Ddeddf

The Act

Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.

Deddf 2014

The 2014 Act

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Y ddeddfwriaeth hon yw'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalu, ac ar gyfer gweddnewid gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.